

# Aseu'r Effaith ar Iechyd

Canllaw ymarferol



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales



CARDIFF  
UNIVERSITY

PRIFYSGOL  
CAERDYDD



**WHIASU**

Wales Health Impact  
Assessment Support Unit  
Uned Gymorth Aseu  
Effaith ar Iechyd Cymru

# Rhagair



Pleser o'r mwyaf i mi yw ysgrifennu rhagair byr ar gyfer y canllaw ymarferol hwn i asesu'r effaith ar iechyd. Mae asesu'r effaith ar iechyd yn broses sydd wedi datblygu'n gadarn yng Nghymru dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Soniwyd amdani gyntaf yn Gwell Iechyd, Gwell Cymru (1998), fel maes pwysig o ran datblygu polisi iechyd cyhoeddus ar gyfer y Gymru newydd. Yn y ddogfen arloesol honno, a gyhoeddwyd ar adeg o newid o'r Swyddfa Gymreig i Gynulliad Cymru, cynigiwyd asesu'r effaith ar iechyd fel dull gweithredu ar draws pob maes polisi ac fel ffordd o hwyluso penderfyniadau'n ymwneud â manteision iechyd hirdymor a chynaliadwy. Aeth y Cynulliad newydd ati i brofi'r fethodoleg ar nifer fach o brosiectau peilot cyn ymrwymo i ddatblygu Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru yn 2001, sydd newydd ddechrau ar ei hail ddegawd.

Diben yr Uned oedd meithrin gallu llywodraeth leol a sefydliadau eraill i asesu'r effaith ar iechyd. Cyflawnwyd hyn yn bennaf drwy hyfforddiant, yn aml gan ddefnyddio prosesau asesu'r effaith ar iechyd go iawn fel cyfle hyfforddi a darparu adnoddau ar y we. Roedd gan yr Uned hefyd gylch gwaith i ymateb i'r cyhoedd neu grwpiau cymunedol a allai fod â diddordeb mewn defnyddio'r broses asesu'r effaith ar iechyd mewn perthynas â datblygiadau a oedd yn effeithio arnynt. O'r cychwyn mae sgiliau ymchwil yn WHIASU wedi gwella elfennau casglu tystiolaeth y broses asesu'r effaith ar iechyd, ac mae astudiaethau achos wedi cael eu defnyddio fel ffordd o bwysu a mesur a gwerthuso gwahanol fathau o brosesau asesu'r effaith ar iechyd yn ogystal â damcaniaethu ar gyfraniad y broses i wybodaeth am iechyd yn fwy cyffredinol. Mae prosesau asesu'r effaith ar iechyd mewn perthynas ag adfywio tai a chloddio glo brig wedi arwain at gyhoeddi papurau dylanwadol mewn cyhoeddiadau amgylcheddol, iechyd a chymdeithasegol, gan roi proffil rhyngwladol i asesu'r effaith ar iechyd yng Nghymru.

Y cyfuniad o arweiniad ymarferol a datblygiad damcaniaethol yw dilysnod yr Uned, ac efallai mai dyma'r rheswm y mae wedi parhau i dyfu, er gwaetha'r newidiadau a'r datblygiadau sy'n digwydd o'i hamgylch. Saif bellach yn enghraifft ragorol o'r hyn y gellir ei wneud mewn partneriaeth rhwng un o gyrff y GIG, sef Iechyd Cyhoeddus Cymru, a sefydliad academiaidd, sef Prifysgol Caerdydd. Wrth i'r themâu 'iechyd ym mhob polisi', 'iechyd cynaliadwy' a 'cymunedau cysylltiedig' ddod yn fwyfwy amlwg yng Nghymru a thu hwnt, bydd rôl asesu'r effaith ar iechyd yn dod yn fwyfwy pwysig. Mae'r canllaw ymarferol hwn yn gyfraniad gwych i'r broses barhaus honno.

## Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru

Chloe Chadderton  
Eva Elliott  
Liz Green  
Julia Lester  
Gareth Williams

[www.whiasu.wales.nhs.uk](http://www.whiasu.wales.nhs.uk)



# Cynnwys

Cyflwyniad	2
Beth yw Asesu'r Effaith ar Iechyd?	4
- Egwyddorion Asesu'r Effaith ar Iechyd	5
- Asesu'r Effaith ar Iechyd a Thegwch	6
- Asesu'r Effaith ar Iechyd yng Nghymru	7
- Mathau o Asesiadau	8
Sut i Asesu'r Effaith ar Iechyd	9
- Cam 1: Sgrinio: penderfynu p'un a ddylid Asesu'r Effaith ar Iechyd	9
- Cam 2: Pennu cwmpas: penderfynu ar y ffocws, y dulliau a'r cynllun gwaith	11
• Math o asesiad	11
• Grŵp llywio	12
• Swyddogaethau a chyfrifoldebau	12
• Rhanddeiliaid	13
• Pennu'r dulliau	13
- Cam 3: Gwerthuso'r Dystiolaeth: nodi'r effeithiau ar iechyd	14
• Tystiolaeth, data a dulliau	14
• Ffynonellau tystiolaeth	14
• Casglu a defnyddio gwybodaeth	15
• Disgrifio'r effeithiau	16
• Cynnwys pobl	17
• Mathau o wybodaeth	17
• Gweithdai cyfranogol	18
• Cyfweiliadau a grwpiau ffocws	19
• Meintioli a Rhagfynegi Effeithiau	20
- Cam 4: Cyflwyno Adroddiadau ac Argymhellion	22
- Cam 5: Monitro a Gwerthuso	23
• Adolygu Ansawdd	23
Atodiad 1: Rhestr Wirio o'r Ffactorau sy'n Dylanwadu ar Iechyd a Lles	24
Atodiad 2: Rhestr Wirio o Grwpiau sy'n Agored i Niwed / Difreintiedig	25
Atodiad 3: Offeryn a Thaflen Cofnodi Sgrinio/Arfarnu Asesu'r Effaith ar Iechyd	26
Atodiad 4: Rhestr Wirio Pennu Cwmpas Proses Asesu'r Effaith ar Iechyd	29
Dolenni a Gwybodaeth	30
Tystiolaeth a Gwybodaeth	32
Rhestr Termau	35
Cyfeiriadau	37

# Cyflwyniad

Yn y canllaw hwn, a gynhyrchwyd gan Uned Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU)<sup>1</sup> disgrifir y broses Asesu'r Effaith ar Iechyd, darperir y dulliau o wneud hynny a rhestrir yr adnoddau i ategu'r gwaith. Mae Asesu'r Effaith ar Iechyd yn broses sy'n ystyried sut y bydd camau arfaethedig yn effeithio ar iechyd a lles poblogaeth, boed yn bolisi, yn rhaglen, yn gynllun, yn brosiect neu'n newydd yn y ffordd y mae sefydliad yn darparu gwasanaeth cyhoeddus penodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd diddordeb brwd o safbwynt polisi strategol ac o ran arweiniad rhyngwladol mewn Asesu'r Effaith ar Iechyd (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2003; 2007) ac mae'n ymrwymedig i ddatblygu ei ddefnydd fel rhan allweddol o strategaethau gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau. Deillia hyn o'r angen i wella iechyd poblogaeth lle mae'r data yn parhau i ddangos lefelau uchel ac annerbyniol o iechyd gwael ac anghydraddoldebau iechyd (Data Cymru, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011).

Anelir y canllawiau at unrhyw un a allai arwain neu gomisiynu proses Asesu'r Effaith ar Iechyd, neu gyfranogi neu gael ei effeithio gan argymhellion y broses honno. Ei fwriad yw bod yn offeryn asesu generig y gellir ei ddefnyddio i ategu'r broses ar lefelau cenedlaethol a rhyngwladol. Fodd bynnag, efallai y bydd angen addasu'r offeryn a'i ddatblygu i fod yn addas i sefydliad a chynnig penodol. Ategir y canllaw hwn gan ystod o adnoddau y gellir eu lawrlwytho i'w defnyddio wrth Asesu'r Effaith ar Iechyd. Yn ogystal mae canllawiau 'bach' ychwanegol ar adolygu a chomisiynu prosesau asesu'r effaith ar iechyd.

## Beth yw ystyr iechyd a lles?

Mae Asesu'r Effaith ar Iechyd yn seiliedig ar fodel cymdeithasol neu gyfannol o iechyd yn hytrach na model bioffisegol sy'n canolbwyntio ar osgoi clefydau a salwch yn unig. O fewn Asesu'r Effaith ar Iechyd, mae iechyd yn gysyniad cadarnhaol sy'n cwmpasu lles meddyliol, corfforol a chymdeithasol. Mae'n anodd deall y cysyniad o iechyd fel rhywbeth sy'n gwbl ar wahân i'r ffordd yr ydym yn byw a'r gymdeithas yr ydym yn rhan ohoni. Awgryma hyn ddau beth - yn gyntaf, fod iechyd yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl sy'n byw mewn amseroedd a lleoedd penodol ac yn ail, fod prosesau cymdeithasol ac economaidd ehangach yn dylanwadu ar ganlyniadau iechyd, sut bynnag yr ydym yn eu deall a/neu'n eu mesur.

Y diffiniad gorau o'r model cymdeithasol yw un a gynhyrchwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn 1948 a nododd:


**'Lles cyflawn corfforol, meddyliol a chymdeithasol yw iechyd, nid dim ond absenoldeb clefyd neu lesgedd'.**

(WHO, 1948)

<sup>1</sup> Sefydlwyd WHIASU yn 2001 ac mae'n darparu cyngor, cymorth, arweiniad, hyfforddiant ac ymchwil yn y maes asesu'r effaith ar iechyd ledled Cymru. Caiff ei hariannu gan Lywodraeth Cymru drwy Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac mae gan yr uned enw da yn rhyngwladol am arferion gorau yn y maes Asesu'r Effaith ar Iechyd.

Os gwelwn ein hiechyd fel rhywbeth sy'n cael ei lywio gan brosesau cymdeithasol ehangach yna mae'r polisiau, y rhaglenni a'r prosiectau y mae llywodraethau cenedlaethol neu leol yn eu datblygu ac yn eu cefnogi yn debygol o fod yn gyfleoedd neu'n fygythiadau pwysig i iechyd unigolion, grwpiau, cymunedau a phoblogaethau cyfan. Er bod argaeledd ac ansawdd gwasanaethau iechyd yn debygol o fod yn bwysig, yn arbennig pan fyddwn yn sâl, mae ansawdd a dosbarthiad adnoddau cymdeithasol ac economaidd yn debygol o fod yn bwysicach i iechyd poblogaeth.

Mae fframwaith o ffactorau cymdeithasol fel y model a ddatblygwyd gan Dahlgren a Whitehead (1991) (Ffig.1), yn rhoi cyfle i ystyried sut y gallai cynnig effeithio mewn gwahanol ffyrdd ar wahanol grwpiau o bobl, ac yn canolbwyntio ar y cyd-destunau penodol y mae pobl yn byw ynddynt. Addasodd Barton a Grant (1998) (Ffig. 2) y model hwn a'i ddatblygu i greu fframwaith ecolegol a oedd yn cyd-fynd yn well â'r amgylcheddau yr oedd pobl yn byw ynddynt.



Gallai rhai effeithiau ar y ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd fod yn uniongyrchol, yn amlwg a/neu'n fwriadol, ond gallai eraill fod yn anuniongyrchol, yn anodd eu nodi ac yn anfwriadol. Nod Asesu'r Effaith ar Iechyd yw ceisio rhag-weld a lliniaru'r effeithiau hyn.



# Beth yw Asesu'r Effaith ar Iechyd?

Derbynnir yn gyffredinol mai Consensws Gothenburg Canolfan Polisiâu Iechyd Ewrop (1999) yw'r diffiniad pendant o Asesu'r Effaith ar Iechyd ac mae'n diffinio'r broses fel:

*'Cyfuniad o weithdrefnau, dulliau ac offer a ddefnyddir i farnu effeithiau posibl polisi, rhaglen neu brosiect ar iechyd poblogaeth, a dosbarthiad yr effeithiau hynny o fewn y boblogaeth.'*

Fodd bynnag, mae diffiniadau amgen wedi cael eu cynnig yn ddiweddar (Elliott et al. 2010) wrth i ymarfer Asesu'r Effaith ar Iechyd esblygu:

*'...proses y mae tystiolaeth (o wahanol fathau), diddordebau, gwerthoedd ac ystyron yn cael eu trafod rhwng rhanddeiliaid perthnasol (gwleidyddion, gweithwyr proffesiynol a dinasyddion) er mwyn deall a rhag-weld yn ddychmygus effaith newid ar iechyd ac anghydraddoldebau iechyd mewn poblogaeth benodol.'*

Mae'r ail ddiffiniad yn cydnabod nad yw cyfeiriad a natur effeithiau ar iechyd yn amlwg nac yn cael eu derbyn yn gyffredinol, eu bod yn destun trafodaeth ac yn cynnwys syniadau gwahanol ynghylch beth yw iechyd a beth y dylai'r amodau iechyd fod. Serch hynny mae Asesu'r Effaith ar Iechyd yn darparu fframwaith ar gyfer amlygu'r gwahanol farnau am dystiolaeth ac iechyd a chraffu ar hynny.

Dull systemataidd, gwrthrychol ond hyblyg ac ymarferol o asesu effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl cynnig ar iechyd a lles yw'r broses Asesu'r Effaith ar Iechyd ac mae'n awgrymu ffyrdd o sicrhau'r manteision iechyd mwyaf a lleihau'r risgiau i iechyd. Mae'r broses Asesu'r Effaith ar Iechyd yn edrych ar iechyd yn ei ystyr ehangaf, drwy ddefnyddio'r ffactorau ehangach sy'n dylanwadu ar iechyd fel fframwaith (Atodiad 1 - Rhestr Wirio o Ffactorau sy'n Dylanwadu ar Iechyd a Lles). Yn anad dim, mae Asesu'r Effaith ar Iechyd yn amlygu'r ffordd anghyson y gall effeithiau ar iechyd gael eu dosbarthu ar draws poblogaeth ac yn ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac annhegwch iechyd presennol yn ogystal ag osgoi creu rhai newydd. Mae Asesu'r Effaith ar Iechyd yn offeryn i gefnogi prosesau penderfynu (Taylor, 2002) ac, yn hynny o beth, gall hysbysu penderfynwyr a chymunedau am effaith a chanlyniadau posibl cynnig neu bolisi o ran iechyd a lles. Nid yw Asesu'r Effaith ar Iechyd ynddo'i hun yn ddull o benderfynu p'un a ddylid bwrw ymlaen â pholisi, cynnig neu raglen. Mae'n ffordd o harneisio ystod eang o dystiolaeth ac asesu ei pherthnasedd a'i chymhwysedd i gyd-destun lleol, rhanbarthol neu genedlaethol penodol.

Fodd bynnag, mae gwahanol fathau o wybodaeth, ac mae rhywfaint o'r wybodaeth honno'n wybodaeth gyd-destunol sydd gan gymunedau o'r lleoedd y maent yn byw ynddynt. Yn ogystal, gall y penderfyniadau gael effaith sylweddol ar ansawdd bywydau pobl. Felly mae cysylltiad agos rhwng gwybodaeth a gwerthoedd ac mae angen sicrhau bod y prosesau ar gyfer asesu tystiolaeth o bob math yn gadarn, yn gynhwysol ac yn dryloyw.

## Egwyddorion Asesu'r Effaith ar Iechyd

Mae Consensusw Gothenburg yn amlygu gwerthoedd Asesu'r Effaith ar Iechyd: dylai'r broses Asesu'r Effaith ar Iechyd fod yn **agored**, a chynnwys ystod eang o randdeiliaid; yn **dryloyw**, gan gynnwys dogfennu'r broses; yn **foesegol**, o ran ei defnydd o dystiolaeth a dulliau cyfranogi; yn **deg**, drwy dybiaeth o blaid lleihau anghydraddoldebau iechyd; yn **gadarn** yn ei ddulliau ar gyfer ystyried dystiolaeth a chyfranogi; yn **gyfranogol** drwy ymgysylltu'n weithredol â rhanddeiliaid o ystod eang o sefydliadau drwy ddulliau priodol; yn **gynaliadwy**, drwy ystyried effeithiau byrdymor, uniongyrchol ac anuniongyrchol, er mwyn hysbysu polisiau, rhaglenni a phrosiectau mewn modd cynaliadwy; ac yn **ddemocrataidd** drwy bwysleisio hawliau pobl i gymryd rhan mewn penderfyniadau mawr sy'n effeithio ar eu bywydau a, thrwy Asesu'r Effaith ar Iechyd, galluogi pobl i gymryd rhan weithredol mewn prosesau penderfynu a chyfrannu atynt.

### Manteision Asesu'r Effaith ar Iechyd

#### *Gwybodaeth am Iechyd a Chamau Gweithredu*

- Codi ymwybyddiaeth ar draws sectorau o sut y gall penderfyniadau effeithio ar iechyd
- Nodi'r cysylltiadau rhwng iechyd a meysydd polisi eraill
- Cydgysylltu camau gweithredu rhwng sectorau i wella a diogelu iechyd

#### *Datblygu sefydliadol*

- Y potensial i leihau'r galw ar y GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol drwy fuddsoddi mewn polisiau, rhaglenni a phrosiectau sy'n atal salwch
- Sicrhau bod prosesau penderfynu yn fwy tryloyw
- Hyrwyddo cynllunio ar sail dystiolaeth a gwneud penderfyniadau

#### *Cymunedau*

- Hyrwyddo mwy o degwch ym maes iechyd
- Cynnig camau i sicrhau'r manteision iechyd mwyaf posibl a lleihau'r risgiau i iechyd
- Cynnwys y cymunedau a gaiff eu heffeithio gan gynnig
- Cefnogi datblygu amgylcheddau a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion lleol
- Gwella ymgysylltu â'r cyhoedd/dinasyddion

## Asesu'r Effaith ar Iechyd a Thegwch

Mae ystyried anghydraddoldebau iechyd a chamau i wella tegwch yn un o brif sbardunau Asesu'r Effaith ar Iechyd yng Nghymru a dylai fod yn elfen o unrhyw broses asesu'r effaith ar iechyd.

Mae pob asesiad sydd wedi cael ei gynnal a'i chefnogi gan WHIASU yng Nghymru wedi ystyried anghydraddoldebau ac annhegwch yn systemataidd a'r effeithiau ar ystod o grwpiau sy'n agored i niwed yn y boblogaeth ac asesu eu graddau a'u dosbarthiad. Gall y grwpiau hyn, er enghraifft, gynnwys pobl hŷn, plant a phobl ifanc, y rhai sy'n dioddef o gyflyrau cronig, neu'r rhai sydd wedi'u hynysu'n ddaeryddol.

Er bod anghydraddoldebau iechyd yn cyfeirio at wahaniaethau systemataidd yn statws iechyd gwahanol grwpiau o bobl mewn poblogaeth benodol, mae gan annhegwch iechyd ddimensiwn moesegol penodol. Un ffordd ddefnyddiol o ddeall annhegwch iechyd yw edrych arno fel gwahaniaethau mewn statws iechyd sy'n ddiangen, y gellir eu hosgoi, sy'n annheg ac yn anghyfiawn (Whitehead 1992). Adlewyrchir hyn yn nogfen dechnegol Strategaeth Iechyd Cyhoeddus Llywodraeth Cymru, 'Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb' (WAG, 2010).

Mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb ar y Sector Cyhoeddus (a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2011) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus ystyried pob unigolyn wrth gyflawni eu gwaith o ddydd i ddydd - o ran llunio polisiau, darparu gwasanaethau ac mewn perthynas â'u cyflogaeth. Mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb yn cefnogi prosesau penderfynu da - mae'n annog cyrff cyhoeddus i ddeall sut y bydd eu gweithgareddau'n effeithio ar wahanol bobl, er mwyn i'w polisiau a'u gwasanaethau fod yn briodol ac yn hygyrch i bawb a diwallu anghenion gwahanol bobl. Drwy ddeall effaith eu gweithgareddau ar wahanol bobl, a sut y gall gwasanaethau cyhoeddus cynhwysol gefnogi pobl a chynnig cyfleoedd iddynt, gall cyrff cyhoeddus fod yn fwy effeithlon ac effeithiol.

Mae prosesau Asesu'r Effaith ar Iechyd sy'n canolbwyntio ar degwch yn seiliedig ar egwyddor cyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol a thegwch i bawb. Caiff fframwaith i sicrhau bod prosesau Asesu'r Effaith ar Iechyd sy'n canolbwyntio'n benodol ar degwch eu datblygu yng Nghymru ynghyd â nifer o wledydd eraill yn yr Undeb Ewropeaidd. Caiff adnoddau i gyd-fynd â'r canllaw hwn eu diweddarau wrth i ragor o brosesau Asesu'r Effaith ar Iechyd sy'n canolbwyntio ar degwch gael eu cynnal a'u gwerthuso. Fodd bynnag, dylid pwysleisio mai nod Asesu'r Effaith ar Iechyd yng Nghymru yw osgoi annhegwch a hyrwyddo tegwch o fewn y fframwaith hwn drwy ddefnyddio'r wybodaeth a'r dystiolaeth orau sydd ar gael. Bydd y fframwaith yn sicrhau bod prosesau Asesu'r Effaith ar Iechyd yn y dyfodol yn gwella eu gallu i fod yn sail i ddatblygu polisiau, rhaglenni a phrosiectau teg.



## Asesu'r Effaith ar Iechyd yng Nghymru

Wrth baratoi ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol newydd yng Nghymru, disgrifiodd 'Gwell Iechyd, Gwell Cymru' (y Swyddfa Gymreig 1998) yr angen i fynd i'r afael â'r ffactorau cymdeithasol ac economaidd sy'n dylanwadu ar iechyd ac anelu at ddatblygu'r broses Asesu'r Effaith ar Iechyd yng Nghymru fel dull o gefnogi mentrau hybu iechyd a mentrau ataliol. Ar lefel strategol, nod y ddogfen 'Creu'r Cysylltiadau' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004) oedd ategu'r gwaith o integreiddio iechyd i bob sector ac ystyried 'Iechyd ym mhob Polisi' (HiAP) (WHO, 1999). Mae ffocws ar integreiddio 'Iechyd ym Mhob Polisi' wedi arwain at ystyried Asesu'r Effaith ar Iechyd fel un o'r prif elfennau o ran codi ymwybyddiaeth o iechyd a lles mewn sectorau eraill yng Nghymru a chefnogi'r agenda ataliol a hybu iechyd.

Gwelwyd un enghraifft o gydnabyddiaeth wleidyddol i Asesu'r Effaith ar Iechyd yn nogfen 'Cymru'n Un' llywodraeth glymblaid Llafur/Plaid Cymru (2007) a ymrwymodd Lywodraeth Cymru i ddefnyddio Asesu'r Effaith ar Iechyd mewn perthynas â cheisiadau am weithfeydd glo brig.

Nid yw Asesu'r Effaith ar Iechyd yn ofyniad statudol yng Nghymru (nac yn unman arall yn y DU) ond mae Llywodraeth Cymru yn credu'n gynyddol bod ystyried iechyd a lles yn benodol mewn meysydd nad ydynt yn ymwneud ag iechyd, yn arfer da. Mewn ystod eang o feysydd, yn cynnwys trafndiaeth ffyrdd a rheilffyrdd, mwynau, gwastraff a chynllunio defnydd tir, cyfeirir at Asesu'r Effaith ar Iechyd yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru:

- Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21<sup>2</sup> ar wastraff yn cynghori y dylai prosesau Asesu'r Effaith ar Iechyd gael eu cynnal ar gyfer Strategaeth Wastraff Cymru a'i chynlluniau cysylltiedig;
- Mae Datganiad Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog (DMIPPS) 02/06<sup>3</sup> yn cefnogi ystyried iechyd a lles ar lefel leol ac mae'n ganllaw ategol i Bolisi Cynllunio Cymru ar gyfer ceisiadau cynllunio mawr a Chynlluniau Datblygu Lleol;
- Mae Arweiniad ar Arfarnu Trafndiaeth Cymru (WelTAG)<sup>4</sup> yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal proses Asesu'r Effaith ar Iechyd ar gyfer rhai mathau o gynigion trafndiaeth
- Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (MTAN) 2: Glo<sup>5</sup> mae'n ofynnol cynnal proses Asesu'r Effaith ar Iechyd ar gyfer datblygiadau mwynau a mwyngloddio gyda chyfranogiad y gymuned.

Er bod enghreifftiau lle mae Asesu'r Effaith ar Iechyd yn cael ei nodi'n benodol fel gofyniad, dylid cydnabod y dylai'r manteision sylweddol yn sgil Asesu'r Effaith ar Iechyd sicrhau mai dyma'r broses arferol a ffefrir ar gyfer pob datblygiad strategol, boed yn bolisi, yn rhaglen neu'n brosiect, ym mhob adran, cyfarwyddiaeth a sector.

<sup>2</sup> <http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan21/?lang=en>

<sup>3</sup> [www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=522&id=124565](http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=522&id=124565)

<sup>4</sup> <http://wales.gov.uk/topics/transport/publications/weltag/?lang=cy>

<sup>5</sup> <http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/mineralstans/2877461/?lang=cy>

Mae'r defnydd cynyddol o Asesu'r Effaith ar Iechyd wedi amlygu rhai heriau mawr - yn cynnwys y wybodaeth a'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn Asesu'r Effaith ar Iechyd, pwy a ddylai gomisiynu proses Asesu'r Effaith ar Iechyd a sut, a natur ddiuedd ac ansawdd y prosesau Asesu'r Effaith ar Iechyd a wneir gan ymgynghorwyr preifat. Mae'r ddealltwriaeth o 'iechyd' hefyd wedi bod yn broblematic mewn llawer o feysydd nad ydynt yn feysydd iechyd traddodiadol a gall hyn greu tensiwn o ran ymarfer Asesu'r Effaith ar Iechyd gan ei fod yn cwmpasu golwg ehangach ar iechyd.

## Mathau o Asesiadau

Mae tri phrif fath o asesiad er mwyn Asesu'r Effaith ar Iechyd - Arfaethedig, Cyfredol ac Ôl-weithredol.

*Asesiad Arfaethedig* – ar ddechrau camau datblygu prosiect, cynnig neu gynllun.

*Asesiad Cyfredol* – sy'n cael ei chynnal ochr yn ochr â gweithredu'r prosiect (neu'r polisi)

*Asesiad Ôl-weithredol* – asesu effaith prosiect neu bolisi presennol a gellir ei ddefnyddio fel offeryn gwerthuso. Gall asesiadau ôl-weithredol gael eu gwneud o ddigwyddiadau annisgwyl hefyd, fel ffyrdd o ddysgu gwersi ar gyfer digwyddiadau tebyg yn y dyfodol.

Y ffordd orau o asesu'r effaith ar Iechyd yw defnyddio'r asesiad arfaethedig yn ystod camau datblygu cynnig. Dylid rhoi'r broses ar waith yn ddigon hwyr yng nghymau datblygu'r cynnig i sicrhau bod eglurder ynghylch ei natur a'i ddiben, ond yn ddigon cynnar i allu dylanwadu ar ei gynllun a/neu ei weithrediad.

O fewn unrhyw un o'r uchod, gall Asesu'r Effaith ar Iechyd fod ar un o dair ffurf wahanol, yn dibynnu ar y ffocws a'r amser a'r adnoddau sydd ar gael – Pen Desg, Cyflym neu Gynhwysfawr.

Gall asesiad *Pen Desg* gymryd oriau neu ddiwrnod a chynnwys nifer fach o gyfranogwyr yn eistedd o amgylch bwrdd gan ddefnyddio gwybodaeth bresennol a thystiolaeth i asesu cynnig, polisi neu gynllun.

Gall asesiad *Cyflym* gymryd diwrnodau neu wythnosau ac mae fel arfer yn cynnwys sefydlu grŵp llywio bach sy'n aml yn defnyddio gweithdai cyfranogol i randdeiliaid - mae fel arfer yn cynnwys ymchwiliad byr i effeithiau ar Iechyd, gan gynnwys adolygiad byr o lenyddiaeth a thystiolaeth feintiol ac ansoddol a chasglu gwybodaeth a rhagor o dystiolaeth gan nifer o randdeiliaid lleol.

Mae asesiadau *Cynhwysfawr* yn fanylach a gallant gymryd misoedd i'w cwblhau. Gallant fod yn draul ar amser, yn ddrud, a gallant olygu chwiliadau manwl drwy lenyddiaeth a chasglu data sylfaenol. Mae'r math hwn o asesiad yn fwy addas ar gyfer cynigion cymhleth.

Yn aml, fodd bynnag, gall proses Asesu'r Effaith ar Iechyd fod rhwng dau o'r categorïau hyn oherwydd bydd y dull asesu yn dibynnu ar natur y cynnig, yr amserlen a'r adnoddau dynol, sefydliadol ac ariannol sydd ar gael i ymgymryd â'r broses.

# Sut i Asesu'r Effaith ar Iechyd

Mae pum prif gam i Asesu'r Effaith ar Iechyd ac er y bydd rhai yn ei hystyried yn broses llinellol, mae'r broses Asesu'r Effaith ar Iechyd ar ei fwyaf defnyddiol ac effeithiol pan fydd y broses yn ailadroddol. Mae'n systematig ond eto'n hyblyg i amserlenni ac amgylchiadau penodol ac, er y gall ymddangos yn dechnegol, mae'n hawdd iawn ei dilyn. Y pum cam yw:

- Sgrinio
- Pennu Cwmpas
- Arfarnu Tystiolaeth/Asesiad
- Cyflwyno Adroddiadau ac Argymhellion
- Monitro a Gwerthuso

## CAM 1: Sgrinio – Penderfynu p'un a ddylid Asesu'r Effaith ar Iechyd

Mae'r broses sgrinio yn edrych ar effeithiau posibl y cynnig ar y boblogaeth leol ac unrhyw grwpiau penodol sy'n agored i niwed a ddiffinnir yn y boblogaeth. Dylai amlygu unrhyw risgiau neu fanteision posibl i iechyd ac unrhyw grwpiau y gellid effeithio arnynt yn benodol. Canlyniad y broses sgrinio yw p'un a ddylid Asesu'r Effaith ar Iechyd ai peidio ac, os felly, penderfynu pa fath o asesiad y bydd ei angen. Dylai hefyd roi esboniad o sut y daethpwyd i'r penderfyniad.

### Diben

Mae angen ffordd syml o nodi pa gynigion a ddylai gael asesiad pen desg, asesiad cyflym neu asesiad cynhwysfawr. Ar ei ffurf symlaf mae 'sgrinio' yn golygu mynd yn ôl i'r camau cynharaf posibl yn y broses cynllunio a datblygu a gofyn y cwestiwn:

*"A allai'r cynnig hwn gael effaith ar iechyd a lles pobl neu unrhyw ffactorau a allai ddylanwadu ar iechyd pobl, neu a oes goblygiadau i iechyd a lles pobl yn sgil y cynnig?"*

Mae'r cam hwn yn rhoi darlun cychwynnol o'r effeithiau posibl ar iechyd poblogaeth berthnasol er mwyn helpu gyda'r broses benderfynu. Yn benodol bydd yn dangos:

- P'un a yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar iechyd.
- Pa rannau o'r boblogaeth, yn enwedig grwpiau sy'n agored i niwed, sy'n debygol o gael eu heffeithio (Ceir rhestr o grwpiau sy'n agored i niwed a /neu ddifreintiedig yn Atodiad 2)
- Maint posibl yr effeithiau hyn a ph'un a ydynt yn debygol o fod yn gadarnhaol ynteu'n negyddol.
- P'un a oes angen asesiad pen desg, asesiad cyflym neu asesiad cynhwysfawr.

Gall grŵp bach gwblhau sesiynau sgrinio gyda chyfraniad gan y sawl a gynigiodd y dylid asesu'r effaith ar iechyd a rhanddeiliaid perthnasol eraill gan gynnwys cynrychiolwyr awdurdodau lleol, gweithwyr iechyd proffesiynol, datblygwr neu gynigydd y prosiect (lle y bo'n bosibl), ac arbenigwyr perthnasol o grwpiau o randdeiliaid allweddol, gan gynnwys aelodau o'r sector cymunedol a gwirfoddol. Gellir gwneud hyn mewn cyfarfod neu drwy drafodaethau unigol. Ni ddylai'r cam hwn gael ei gwblhau gan un person.

### Paratoi

Cyn cyfarfod â rhanddeiliaid ehangach mae'n bwysig sicrhau bod disgrifiad clir o'r cynnig a'i sail resymegol, ei nodau a'i amcanion. Gallai proffil sylfaenol o'r bobl sy'n byw yn yr ardal sy'n debygol o gael ei heffeithio, lle bynnag y bo'n bosibl, fod yn ddefnyddiol hefyd. Dylid anfon y rhain at bob cyfranogwr mewn da bryd cyn y cyfarfod. Efallai na fydd y cyfranogwyr yn gyfarwydd â'r broses Asesu'r Effaith ar Iechyd felly byddai trosolwg o'r broses a'r disgwyliadau ar y cam hwn yn bwysig.

### Cofnodi'r wybodaeth

Mae offeryn sgrinio/arfarnu Asesu'r Effaith ar Iechyd (Atodiad 3) yn ddull o gofnodi'r wybodaeth y tu ôl i'r penderfyniad i asesu'r effaith ar iechyd ai peidio, gan ddarparu cyflawnhad pam yr aseswyd yr effaith ar iechyd neu beidio.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r cam sgrinio yn cael ei wneud bob tro. Gallai hyn fod am nifer o resymau yn cynnwys: deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol sy'n ei gwneud yn orfodol asesu'r effaith ar iechyd; gall llunwyr polisïau a chynllunwyr lleol gredu ei fod yn arfer da; gellid credu ei fod yn cefnogi pryderon iechyd y gymuned; neu gallai fod yn ofyniad gan gorff ariannu.

## CAM 2: Pennu Cwmpas – Penderfynu ar y ffocws, y dulliau a'r cynllun gwaith

### Diben

Mae'r cam hwn yn cynnwys gofyn nifer o gwestiynau a gwneud nifer o benderfyniadau i bennu cylch gorchwyl, swyddogaethau a chyfrifoldebau a chytuno ar gynllun ar gyfer asesu'r effaith ar iechyd.

### Terfynau amser

Mae'n hanfodol pennu terfynau amser ar gyfer penderfyniadau er mwyn sicrhau bod cyfle i'r broses asesu'r effaith ar iechyd fod yn sail i benderfyniadau. Gallai fod nifer o gyfleoedd i wneud hyn ond mae'n hanfodol gwybod amseriadau'r rhain a pha dystiolaeth neu argymhellion defnyddiol y gallai'r broses asesu'r effaith ar iechyd eu darparu.

### Ffiniau daearyddol

Mae'n bwysig cytuno ar ffiniau daearyddol yr asesiad. Gallai poblogaethau y tu hwnt i'r rhai y mae'r cynigion yn effeithio'n uniongyrchol arnynt gael eu heffeithio gan y cynnig ac felly bydd yn bwysig gwneud penderfyniad o ran y ffiniau a'r rheswm dros y penderfyniad hwn.

### Adnoddau

Mae angen pennu pa adnoddau sydd ar gael o ran cyllid ychwanegol ac amser pobl. Mae'n bwysig datblygu dull sy'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

### Cymorth Mewnol ac Allanol

Weithiau mynegir pryderon ynghylch yr amser y mae'n ei gymryd i asesu'r effaith ar iechyd a'r gost. Er na fydd costau'n gysylltiedig ag asesu'r effaith ar iechyd mewn rhai achosion ac y gellid ei ystyried fel dull gwahanol o ddatblygu cynnig, mewn llawer o achosion efallai y bydd costau ychwanegol yn gysylltiedig â chydgylltu'r broses, casglu tystiolaeth ac ysgrifennu adroddiad asesu'r effaith ar iechyd. Mae comisiynu rhywun â phrofiad o asesu'r effaith ar iechyd yn un opsiwn ac mae opsiynau amgen, fel secondiadau, yn opsiwn arall. Mae secondiadau yn gyfle i'r unigolion ar secondiad helpu i ddatblygu sgiliau asesu'r effaith ar iechyd ac i'r sefydliad weld pa mor ddefnyddiol yw'r broses.

### Math o asesiad

Bydd pa mor fanwl y bydd yr asesiad yn dibynnu ar y terfynau amser, yr adnoddau sydd ar gael a chymhlethdod y prosiect. Fel arfer mae asesiadau cyflym yn golygu nifer fach o gyfarfodydd, gweithdy gyda rhanddeiliaid a chynhyrchu adroddiad byr. Gall asesiadau mwy cynhwysfawr gymryd misoedd a chynnwys adolygiadau systemataidd o lenyddiaeth, casglu data newydd a dadansoddiad arbenigol. Mae'n bwysig bod y math o asesiad yn briodol ar gyfer y cynnig dan sylw.

Mae gwaith ymchwil blaenorol wedi awgrymu mai dull tri chyfarfod yw'r un y mae gan y rhan fwyaf o sefydliadau'r gallu i ymgymryd ag ef ac sy'n caniatáu amser i ddod o hyd i dystiolaeth sy'n seiliedig ar ymchwil a thystiolaeth arall a'u hasesu (Lester, 2004).

## Grŵp llywio

Nid yw grŵp llywio'n hanfodol ond gall ddarparu dull effeithiol o rannu perchnogaeth a chyfrifoldeb dros asesu'r effaith ar iechyd a galluogi tasgau i gael eu dosbarthu. Bydd y maint yn dibynnu ar hyd a chymhlethdod y prosiect, ond rhwng 6 a 12 yw'r nifer delfrydol. Dylai cynrychiolwyr grwpiau o randdeiliaid neu sefydliadau allweddol gymryd rhan gan fod hyn yn helpu i hyrwyddo cyfranogiad ehangach a pherchnogaeth o'r broses.

Mae cymysgedd o sgiliau ac arbenigedd hefyd yn helpu i sicrhau bod y broses yn gwneud y gorau o'r adnoddau ymarferol ac academaidd sydd eu hangen i ddatblygu asesiad o safon uchel. Yn dibynnu ar y math o gynnig a'i gymhlethdod, gallai'r sgiliau hyn gynnwys cyfranogiad neu ddatblygiad cymunedol, ymchwil, rheoli prosiect a dadansoddi polisi.

Gall fod angen pobl sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd penodol. Mae hyn yn debygol o gynnwys iechyd cyhoeddus, ond gall hefyd gynnwys gwybodaeth arbenigol ym meysydd y gwyddorau cymdeithasol, epidemioleg, iechyd yr amgylchedd neu economeg iechyd. Mae gan gynrychiolwyr cymunedol a thrigolion lleol ddealltwriaeth benodol o sut y bydd cynigion yn effeithio ar bobl leol a dylid ystyried eu cynnwys mewn grŵp llywio.

Bydd y penderfyniad i sefydlu grŵp llywio yn dibynnu ar yr amgylchiadau, ond dylid nodi grŵp llywio cychwynnol ar ddiwedd y broses sgrinio. Bydd hyn yn galluogi grŵp eang o bobl i gyfranogi yn y broses pennu cwmpas. Un o dasgau cyntaf y grŵp llywio yw cytuno ar yr aelodaeth a pha mor aml y dylai'r grŵp gyfarfod o fewn yr amserlen sydd ar gael.

Dylid penodi cadeirydd y mae pobl yn teimlo sy'n deg, yn ddiuedd ac yn cael ei barchu gan y gwahanol grwpiau â diddordeb.

### *Swyddogaethau a chyfrifoldebau*

Bydd ystod o dasgau'n gysylltiedig ag amrywiol gamau'r broses asesu'r effaith ar iechyd, a dylid cytuno ar bwy sy'n gyfrifol amdanynt ar y cam hwn. Gallai hyn gynnwys:

- cadeirio cyfarfodydd
- cymryd cofnodion a'u dosbarthu
- archebu lleoliadau ar gyfer cyfarfodydd
- anfon gwahoddiadau at randdeiliaid
- ysgrifennu adroddiadau

Mae angen cytuno ar swyddogaethau mwy cyffredinol y grŵp llywio hefyd er mwyn i aelodau fod yn glir ynghylch y disgwyliadau. Er enghraifft, gallai aelodau o'r grŵp llywio eu hunain fod yn gyfrifol am sicrhau mynediad i fathau penodol o wybodaeth neu dystiolaeth, neu gyrraedd grwpiau penodol o bobl fel rhan o'r broses o gasglu barn. Disgwylir iddynt hefyd wneud sylwadau ar unrhyw ddrafft o'r adroddiad pennu cwmpas (os caiff un ei gynhyrchu) ac ar yr adroddiad terfynol neu'r argymhellion.

## Rhanddeiliaid

Rhanddeiliaid yw'r rhai sy'n ymwneud â datblygu'r cynnig a'r rhai sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynnig. Mae eu cyfranogiad yn bwysig am y rhesymau a nodir uchod. Dylai cynrychiolwyr y prif rhanddeiliaid gael eu gwahodd i fod ar y grŵp llywio os caiff un ei sefydlu. Fodd bynnag, gallai hefyd fod yn briodol cael barn rhanddeiliaid penodol fel rhan o'r arfarniad. Mae'n bwysig bod y dulliau a ddefnyddir ar gyfer cynnwys pobl yn y broses Asesu'r Effaith ar Iechyd yn briodol i'r grŵp neu'r unigolion yr ymgysylltir â hwy, er enghraifft, efallai y bydd rhai pobl yn teimlo'n fwy cyfforddus mewn grŵp ffocws bach yn hytrach na gweithdy cyfranogol.

## Ffocws yr arfarniad

Er mwyn sicrhau'r defnydd grao o adnoddau prin, mae angen canolbwyntio ar yr effeithiau hynny sydd fwyaf tebygol o ddigwydd a'r rhai a gaiff yr effaith fwyaf ar iechyd ac anghydraddoldebau. Dylid defnyddio'r daflen sgrinio i nodi pa effeithiau y dylai'r arfarniad ganolbwyntio arnynt. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio mai proses ailadroddol yw Asesu'r Effaith ar Iechyd, a gallai effeithiau ddod i'r amlwg yn ystod y cam asesu na chawsant eu nodi yn ystod y cam sgrinio neu bennu cwmpas.

## Pennu'r dulliau asesu

Bydd y dulliau ar gyfer asesu'r effeithiau posibl ar iechyd yn dibynnu ar natur a chymhlethdod y cynnig, y dull asesu a fabwysiadwyd (pen desg, cyflym neu gynhwysfawr) a'r adnoddau a'r amser sydd ar gael. Bydd hwn yn benderfyniad a fydd yn rhannol bragmataidd ac yn rhannol ymwneud â pha dystiolaeth a fydd yn darparu'r farn neu'r rhagfynegiad gorau o'r effaith ar y ffactorau dan sylw a pha grwpiau poblogaeth a gaiff eu heffeithio. Mae'r opsiynau'n cynnwys cymysgedd cydlynus o adolygiad o lenyddiaeth, dadansoddiad polisi, modelu meintiol, casglu data ansoddol (ar ffurf grwpiau ffocws, cyfweiliadau neu weithdai) a/neu gyfarfodydd rhanddeiliaid. Mae'n debygol mai cyfuniad o ddata ansoddol a meintiol a fydd yn darparu'r dystiolaeth fwyaf defnyddiol a chadarn, a thrafodir y rhain yn fanylach yn yr adran nesaf.

Darperir rhestr wirio pennu cwmpas yn Atodiad 4.



## CAM 3: Gwerthuso'r Dystiolaeth – Nodi'r effeithiau ar iechyd

### Diben

Dyma brif gam asesu'r effaith ar iechyd. Y diben yw casglu gwybodaeth am natur, maint, tebygolrwydd a dosbarthiad effeithiau'r cynnig ar iechyd. Mae hefyd yn rhoi cyfle i awgrymu ffyrdd posibl o sicrhau'r manteision iechyd mwyaf a lleihau'r risgiau, yn arbennig y rhai y gall eu hiechyd fod fwyaf agored i niwed neu'r grwpiau mwyaf difreintiedig o'r boblogaeth. Mae hefyd yn rhoi cyfle i nodi ac awgrymu camau a allai fynd i'r afael â bylchau yn y cynnig neu'r cynllun.

Er nad yw'r broses Asesu'r Effaith ar Iechyd yn ddull ymchwil ynddo'i hun, mae'n tynnu ar ystod o ffynonellau gwybodaeth a dulliau casglu a dadansoddi data, y bydd rheolau a gweithdrefnau methodolegol yn berthnasol iddynt.

### Tystiolaeth, data a dulliau

Yn draddodiadol mae'r broses Asesu'r Effaith ar Iechyd wedi ffafrio dulliau mwy meintiol, epidemiolegol o gasglu a dadansoddi data. Fodd bynnag, mae llawer o asesiadau'n ymwneud ag ymchwilio i gwestiynau am effaith debygol ar iechyd a lles cyffredinol poblogaethau a chymunedau ac ateb y cwestiynau hynny, ac er mwyn gwneud hynny bydd angen cyfuniad o ddulliau ansoddol a meintiol a ffynonellau data er mwyn darparu'r darlun mwyaf cyfannol o effeithiau ar iechyd.

Lle mae modd mesur amcangyfrif o faint effaith a lle mae hynny'n ddymunol yna efallai mai dulliau meintiol fydd fwyaf priodol. Er enghraifft, gallai fod yn bosibl amcangyfrif y cynnydd mewn gronynnau llygredd oherwydd newidiadau mewn llif traffig a'r effaith ar statws iechyd trigolion cyfagos. Fodd bynnag, gall cau ysgol, er enghraifft, arwain at ystod o effeithiau sydd ond yn gallu cael eu hasesu drwy ddulliau mwy ansoddol sy'n ymchwilio i brofiadau, safbwyntiau a theimladau pobl.

Bydd yr amser a neilltuir i gasglu tystiolaeth yn dibynnu ar natur y cynnig sy'n cael ei asesu a'r adnoddau sydd ar gael. Fodd bynnag, gall tasgau weithiau gael eu rhannu rhwng aelodau'r grŵp llywio.

### Crynodeb o'r Ffynonellau Tystiolaeth

Gall tystiolaeth fodoli ar sawl ffurf ac mae'n bwysig defnyddio'r hyn sydd ar gael o fewn yr amser a'r adnoddau sydd ar gael. Isod ceir rhestr o ffynonellau tystiolaeth posibl (canllaw yw'r rhestr ac ni fwriedir iddi fod yn gynhwysfawr). Efallai na fydd rhai yn briodol a/neu ar gael yn hawdd ar gyfer y cynnig neu'r boblogaeth sy'n cael eu hasesu.



*Gwybodaeth am y boblogaeth*

- Ystadegau lleol a gesglir yn rheolaidd (e.e. ar iechyd, diweithdra, troseddau ac ansawdd yr aer)
- Arolygon o amodau lleol
- Proffiliau cymunedol (e.e. drwy fapio cymunedol)
- Pryderon lleol (lle y cânt eu dogfennu)
- Dadansoddiad eilaidd o ddata lleol presennol
- Arolygon barn
- Arolygon/ymchwil lleol eraill

*Barn arbenigwyr (gwybodaeth)*

- Barn trigolion a gweithwyr proffesiynol a chanddynt wybodaeth a dealltwriaeth leol
- Barn academyddion neu weithwyr proffesiynol a chanddynt wybodaeth mewn maes arbenigol
- Sefydliadau sy'n darparu cyngor ar bynciau penodol (e.e. ar ymchwil trafndiaeth)

*Tystiolaeth ehangach*

- Ymchwil a gyhoeddwyd mewn cyfnodolion academaidd sydd ar gael drwy chwiliadau arbennig o lenyddiaeth mewn llyfrgelloedd neu ar y Rhyngryd
- Gwaith ymchwil a wneir neu a gomisiynir gan sefydliadau statudol, gwirfoddol neu breifat
- Rhagolygon o fodolau
- Gwybodaeth am gynigion tebygol sydd ar gael mewn mannau eraill (astudiaethau achos)

**Casglu a defnyddio gwybodaeth**

Gall y term 'tystiolaeth' fod yn frawychus. Mae arlliw cyfreithiol a gwyddonol iddo sy'n awgrymu mai dim ond pobl sy'n meddu ar sgiliau arbenigol iawn sy'n gallu cael mynediad i dystiolaeth a'i deall. Gall hefyd awgrymu nad oes modd dod i benderfyniad heb wybodaeth wyddonol a chadarn iawn i ategu'r penderfyniad hwnnw.

Fodd bynnag, yn y byd go iawn, lle mae'r berthynas rhwng pobl a'r lle y maent yn byw yn gymhleth iawn, mae dystiolaeth sy'n rhagfyneigi effaith rhywbeth yn y dyfodol yn brin iawn. Yn wir, mae peth o'r dystiolaeth fwyaf gwerthfawr eisoes ar gael ar ffurf dealltwriaeth leol, gan bobl broffesiynol a lleyg (gweler yr adran ar wybodaeth). Gyda dulliau cyfathrebu electronig cyflym iawn ar gael i'r rhan fwyaf o sefydliadau a'r ffaith bod peiriannau chwilio yn dod yn fwyfwy soffistigedig, mae'n haws dod o hyd i dystiolaeth. Mae nifer o wefannau rhyngweithiol ar gael sy'n cynnwys data iechyd cyhoeddus a data eraill. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod y wybodaeth a gesglir oddi ar y rhyngryd yn ddilys, yn ddibynadwy ac yn gredadwy.

Mae 'A Guide to Reviewing Published Evidence for use in Health Impact Assessment' (Mindell, 2006) yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i gefnogi ymarferwyr Asesu'r Effaith ar Iechyd wrth asesu ansawdd y dystiolaeth a'r math o wybodaeth a gynhwysir mewn asesiadau.

Felly, bydd sgiliau arfarnu tystiolaeth ymchwil ansoddol a meintiol yn werthfawr yma. Y nod yw cymhwyso'r dystiolaeth ymchwil i'r cyd-destunau lleol penodol dan sylw a dyma lle y bydd arbenigwyr proffesiynol a gwyddonol lleol yn ogystal â chymunedau lleol yn bwysig.

### Proffiliau poblogaeth

Dylid defnyddio unrhyw wybodaeth neu ddata sydd ar gael ar nodweddion y boblogaeth leol. Gallai proffil o'r boblogaeth gynnwys rhai o'r canlynol neu bob un ohonynt fel y bo'n briodol:

- Nodweddion cyffredinol y boblogaeth (yn cynnwys maint, dwysedd, oedran, rhyw, incwm a chyflogaeth, statws economaidd-gymdeithasol ac ati)
- Statws iechyd, yn arbennig y grwpiau poblogaeth sydd eisoes wedi'u nodi fel rhai sy'n agored i niwed ac sy'n debygol o elwa ar y cynnig neu gael eu niweidio ganddo
- Dangosyddion ansawdd bywyd
- Gwybodaeth am yr amgylchedd - tai, cludiant a chyflwr yr aer, y dŵr a'r pridd
- Barn pobl leol am yr ardal a'r gwasanaethau a ddarperir

Yn ogystal â darparu darlun cyfredol o'r ardal neu'r boblogaeth dan sylw gall hyn hefyd ddarparu'r sail ar gyfer gwerthusiad dilynol.

Ar y cam hwn, gellir cwblhau'r Offeryn Sgrinio/Arfarnu drwy ddefnyddio'r rhestrau gwirio sydd ar gael ar gyfer y ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a lles a grwpiau poblogaeth sy'n agored i niwed fel ei gilydd (gweler Atodiadau 1 a 2).

### Disgrifio'r effeithiau

Mae nifer o ffyrdd y gall effeithiau posibl gael eu disgrifio. Lle bynnag y bo'n bosibl, dylid asesu'r canlynol:

- Natur yr effaith – sut y bydd y cynnig yn effeithio ar iechyd ac a fydd y cynnig yn gadarnhaol neu'n negyddol?
- Tebygolrwydd yr effaith - a yw effaith y cynnig yn bendant, yn debygol neu'n ddamcaniaethol?
- Maint ac arwyddocâd yr effaith - pa gyfran o'r boblogaeth sy'n debygol o gael ei heffeithio? Pa mor ddifrifol neu fuddiol fydd yr effaith?
- Amseriad yr effaith – a fydd yr effaith yn parhau am wythnosau, misoedd, blynnyddoedd? Mewn rhai achosion gallai'r risgiau byrdymor i iechyd fod yn werth y manteision hirdymor.
- Dosbarthiad yr effeithiau - a fydd y cynnig yn effeithio ar wahanol grwpiau o bobl mewn gwahanol ffyrdd? Efallai na fydd cynnig sy'n debygol o fod o fudd i un garfan o'r boblogaeth o fudd i garfannau eraill. Mewn rhai achosion, bydd yr asesiad yn nodi sut y gellid helpu aelodau o'r poblogaethau lleiaf iach neu'r mwyaf difreintiedig. Gallai hyn fod yn gyfraniad pwysig i leihau anghydraddoldebau iechyd sy'n bodoli rhwng rhai cymunedau

## Cynnwys pobl yn y broses Asesu'r Effaith ar Iechyd

### Gwybodaeth

Dylid canolbwyntio nid yn unig ar y dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio ond hefyd ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a lles pobl. Gallai pobl a chanddynt wybodaeth arbenigol fod yn ddefnyddiol ar gyfer cwestiynau technegol. Er enghraifft, faint o lygredd y bydd proses yn ei gynhyrchu, sut y caiff mwg ei ddsbarthu, sut y bydd cemegyn penodol yn debygol o effeithio ar bobl, beth fydd llif y traffig ar hyd ffordd benodol, faint o swyddi a allai gael eu creu yn sgil cynnig penodol ac ati. Gallai rhywfaint o'r wybodaeth arbenigol hon fod ar gael yn yr Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Arsyllfeydd Iechyd neu mewn asiantaethau eraill. Mae Ymarferwyr Iechyd yr Amgylchedd yn enghraifft wych yn hyn o beth. Gallai prifysgolion hefyd fod yn adnodd defnyddiol.

Bydd trigolion lleol yn gallu rhoi eu barn ynghylch sut y bydd cynnig yn debygol o effeithio ar eu hamodau byw, persbectif sydd ond yn deillio o brofiad o fyw yn yr ardal. Gallant roi gwybodaeth gyd-destunol sy'n aml heb ei chynnwys mewn tystiolaeth sy'n gwbl feintiol. Gellir cael y math hwn o wybodaeth ansoddol ar gyfer asesu'r effaith ar iechyd drwy weithdai cyfranogol (gweler yr adran ar weithdai cyfranogol cyflym isod), cyfweiliadau neu grwpiau ffocws, gyda'r grwpiau rhanddeiliaid yn defnyddio ffactorau ehangach sy'n dylanwadu ar iechyd fel fframwaith systematig a hyblyg. Mae hefyd yn bosibl defnyddio mwy o dechnegau arloesol fel cyfweiliadau cerdded neu ffotograffau. Dull datblygu cymunedol yw photovoice<sup>6</sup> sy'n galluogi pobl i amlygu materion sy'n bwysig iddyn nhw drwy ddefnyddio ffotograffau. Mae'r dulliau hyn yn ddefnyddiol iawn o ran asesu effaith rhaglenni adfywio cymdogaethau ar iechyd, lle y gall pobl deimlo eu bod yn gallu mynegi eu hunain yn gliriach os gallant ddangos eu cymdogaeth i ymchwilydd neu arweinydd asesu'r effaith ar iechyd neu ddefnyddio deunyddiau gweledol y maent wedi'u cynhyrchu.

### Cyfranogiad Dinasyddion a Chymunedau mewn Prosesau Asesu'r Effaith ar Iechyd

Mae ymrwymiad gwleidyddol cryf yng Nghymru ac yn y DU yn gyffredinol i gynyddu cyfranogiad a gwella natur democratiaeth, drwy roi llais i boblogaethau lleol a phobl leol a cheisio rhoi dinasyddion a chymunedau wrth wraidd prosesau penderfynu (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008). Fodd bynnag, nid yw'r syniad o 'gymuned' yn un syml a gall fod yn fwy cymhleth yn sgil y ffordd y mae ymchwilydd, llunwyr polisïau a dinasyddion eu hunain yn defnyddio'r term.

Ymddengys fod yr ystod o ddeunydd cyhoeddedig a deunydd nad yw wedi'i gyhoeddi yn cytuno bod cyfranogiad yn rhywbeth y dylid ei annog. Gall cyfranogi fod yn ffactor allweddol sy'n cyfrannu at hysbysu'r boblogaeth a phenderfynwyr o'r ffordd y gall polisïau gael effaith wirioneddol ar fywydau pobl o ddydd i ddydd - gall y wybodaeth leyg honno ddarparu dealltwriaeth fwy cyfoethog o gymuned a'r materion cysylltiedig o gymharu â 'thystiolaeth sy'n draddodiadol gadarn' (Elliott a Williams, 2008).

Mae nifer o ffyrdd posibl o gynnwys pobl mewn proses Asesu'r Effaith ar Iechyd: mae'r rhain yn cynnwys grwpiau llywio (gweler yr adran flaenorol) gweithdai cyfranogol, grwpiau ffocws a chyfweiliadau a gaiff eu trafod yn fanylach yn ddiweddarach yn y ddogfen.

<sup>6</sup> [www.photovoice.org](http://www.photovoice.org)

Yng ngwaith ymchwil WHIASU, 'Involving the Public in Health Impact Assessment in Wales' (Chadderton et al., 2008) nodwyd nifer o fanteision yn sgil cyfranogiad y cyhoedd mewn prosesau asesu'r effaith ar iechyd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- *I unigolion...*

- Hunaneffeithlonrwydd, hunan-barch a hunanhyder
- Ymwybyddiaeth o ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd
- Gwybodaeth am weithio mewn partneriaeth a gwneud penderfyniadau
- Grymuso
- Mynediad i benderfynwyr

- *I gymunedau...*

- Cyd-effeithlonrwydd, camau gweithredu a grymuso
- Cryfhau a chreu rhwydweithiau a chysylltiadau cymdeithasol newydd
- Cydgyfrifoldeb

- *I sefydliadau ...*

- Gweithio mewn partneriaeth
- Gwell dealltwriaeth o wybodaeth leol a phrofiad personol
- Dealltwriaeth ac effeithiolrwydd o ran bodloni anghenion lleol
- Cydgyfrifoldeb dros benderfyniadau

Fodd bynnag, rhaid cydnabod y gall fod peryglon posibl y dylid ceisio eu hosgoi. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Apathi a blinder ymgynghori
- Amseru gweithdai'n wael a diffyg adnoddau
- Diffyg hyder i gymryd rhan
- Y cyfranogwyr a'r amgylchedd – nid dim ond yr 'hen wyneb'au' (h.y. nid cynghorwyr lleol neu arweinwyr grwpiau dwyn pwysau o reidrwydd, ond pobl sy'n byw yn yr ardaloedd perthnasol ac sy'n debygol o ddiodef yr effaith fwyaf)
- Jargon a therminoleg – mae angen teilwra iaith yn briodol i'r gynulleidfa
- Camwerthu a chodi gobeithion - rhaid gwneud yn glir beth y gall y broses Asesu'r Effaith ar Iechyd ei wneud a beth na all ei wneud
- Anhawster o ran cysylltu â grwpiau sy'n 'anodd eu cyrraedd'
- Sicrhau nad yw'r broses Asesu'r Effaith ar Iechyd yn canolbwyntio ar effeithiau negyddol yn unig er mwyn atal cynnig

### *Gweithdai Cyfranogol Cyflym*

Gall gweithdy cyfranogol i randdeiliaid fod yn offeryn defnyddiol ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid ac mae hefyd yn ffynhonnell ddata ddefnyddiol sy'n gallu llywio'r broses Asesu'r Effaith ar Iechyd drwy amlygu materion pwysig na fyddent o bosibl wedi cael eu hystyried heb gyfraniad gan randdeiliaid.

Mae gweithdy cyfranogol yn hawdd ei drefnu a gall gymryd rhwng nifer o oriau a diwrnod i'w gwblhau. Gall y rhestr wirio ar gyfer pennu cwmpas helpu i nodi rhanddeiliaid posibl i'w gwahodd i'r gweithdai. Mae angen teilwra'r gweithdai i ddiwallu anghenion rhanddeiliaid (gan osgoi iaith anghyfarwydd/jargon yn arbennig), egluro beth yw Asesu'r Effaith ar Iechyd, beth y gall ei wneud a'r hyn na all ei wneud. Yn anad dim, rhaid sicrhau atebolrwydd drwy gydol y broses a chydabod a pharchu cyfraniadau'r cyhoedd.

Mae fformat y gweithdy yn hyblyg ond dylai gynnwys nifer o elfennau allweddol: trosolwg o'r cynnig dan sylw, amlinelliad o'r broses Asesu'r Effaith ar Iechyd a'r hyn y gall ei gyflawni, a ffordd systemataidd o drafod rhestr wirio o ffactorau ehangach sy'n dylanwadu ar iechyd gan nodi'r effeithiau cadarnhaol a negyddol. Yn ogystal, dylid cynhyrchu cyfres o argymhellion o'r gweithdy (yn seiliedig ar drafodaeth ynghylch y ffactorau ehangach sy'n dylanwadu ar iechyd), fel sail i'r broses benderfynu.

### *Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymunedol*

Mae Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymunedol yn derm sy'n cwmpasu asesiadau a allai gael eu harwain gan gymunedau, rhai â chyfranogiad cymunedol sylweddol neu rai lle mae'r gymuned yn gofyn am asesiad neu'n ei ysgogi ond sy'n cael ei arwain gan, er enghraifft, yr awdurdod lleol, tîm iechyd cyhoeddus neu fwrdd iechyd. Dilyna'r broses Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymunedol yr un broses systemataidd a chadarn. Mae WHIASU wedi cefnogi nifer o asesiadau wedi'u harwain gan y gymuned a chyhoeddir yr adroddiadau a'r astudiaethau achos ar wefan WHIASU ([www.whiasu.wales.nhs.uk](http://www.whiasu.wales.nhs.uk))

### *Cyfweliadau a grwpiau ffocws*

Os nad yw gweithdy cyfranogol yn ddull priodol o ymgysylltu a chasglu data, neu os bydd angen ymchwilio'n fanylach i faterion, gall cyfweliadau a grwpiau ffocws fod yn ddulliau defnyddiol o gasglu data sylfaenol fel rhan o'r asesiad.

Grwpiau ffocws - mae'r rhain yn rhoi cyfle i drafod effeithiau posibl ar iechyd a lles yn fanylach a gellir eu defnyddio fel methodoleg annibynnol neu i ymchwilio'n fanylach i faterion a godwyd yn y gweithdy cyfranogol. Ymysg manteision grŵp ffocws mae'r canlynol:

- Gall rhyngweithio fod yn haws mewn grŵp bach a gallai'r cyfranogwyr deimlo'n fwy cyfforddus yn trafod materion yn yr amgylchedd hwnnw
- Gellir manteision ar grwpiau presennol (e.e. rhiant a phlentyn)
- Maent yn darparu cyfle i ganolbwyntio ar y grwpiau hynny sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig
- Gallai fod yn bosibl sicrhau mwy o eglurder a thrafod pwyntiau a chael dealltwriaeth fanylach o gyd-destunau a phryderon lleol

Bydd hwylusydd profiadol yn gallu sicrhau bod y drafodaeth yn cadw at y trywydd cywir a bod pob cyfranogwr yn cael cyfle i gyfranogi yn y drafodaeth.

Cyfweliadau unigol - fel gyda grwpiau ffocws, mae cyfweliadau unigol yn darparu cyfle i gasglu data sylfaenol manwl i lywio'r broses Asesu'r Effaith ar Iechyd. Drwy gynnal cyfweliadau un-i-un gellir ymchwilio'n fanylach i brofiadau pobl a gellir rhoi cyd-destun mwy ystyrlon i'r effeithiau posibl ar iechyd. Fodd bynnag, gall cyfweliadau un-i-un fod yn draul ar amser ac adnoddau ac efallai y byddent yn fwy addas ar gyfer asesiadau cynhwysfawr.

### Meintioli a Rhagfynegi Effeithiau

#### *Ymateb i Amlygiad a Dos*

Gall ymateb i amlygiad a dos fod yn ddefnyddiol i amcangyfrif amlygiad mewn sefyllfaoedd clinigol neu amgylcheddol yn bennaf - achosion lle y gall rhywun gael symiau mawr o ddata a mesuriadau technegol manwl (ond mae'n bwysig cofio y gall meintioli effeithiau ar iechyd fod yr un mor ddamcaniaethol â dulliau rhagfynegi eraill ac mae'n ddibynol iawn ar ansawdd y data a ddefnyddir ar gyfer amcangyfrif). Bydd yn asesu pa mor fawr fydd y newid yn y boblogaeth a amlygir a beth fydd yr effaith ar y boblogaeth honno. Fodd bynnag, gall defnyddio'r math hwn o dystiolaeth fod yn gymhleth ac mae anfanteision yn gysylltiedig â defnyddio'r fethodoleg hon ar ei phen ei hun i ragfynegi effeithiau posibl ar iechyd. Yn yr enghraifft o amlygiad i lygryddion, gall fod oedi cyn i ganlyniadau cadarnhaol neu negyddol ddod i'r amlwg. Mae cromlin ymateb i ddos yn edrych ar hynny yn unig ac nid yw'n ystyried unrhyw effeithiau cronus, nac unrhyw ffactorau eraill, a gall fod grwpiau o fewn y boblogaeth a allai fod yn fwy agored i effaith neu glefyd na'r boblogaeth yn gyffredinol. Gall hyn wneud y gwaith o feintioli effeithiau o safbwynt iechyd y cyhoedd yn her.

#### *Modelu ffurfiol*

Gall modelu ffurfiol fod yn ddefnyddiol hefyd o ran nodi, disgrifio a rhagfynegi effeithiau posibl ar iechyd ac ar y boblogaeth. Gellir defnyddio technegau modelu ochr yn ochr â dulliau ymateb i ddos a gallant fod yn ddefnyddiol iawn pan gânt eu defnyddio i asesu ymyriadau clinigol ac amgylcheddol fel effeithiau ysmegu, yfed alcohol neu allyriadau gronynnau yn yr atmosffer. Unwaith eto, mae'r rhain yn tueddu i ddefnyddio tystiolaeth epidemiolegol a/neu docsicolegol er mwyn rhagfynegi effeithiau. Mae'r technegau hyn yn ffordd fathemategol o nodi effeithiau posibl drwy wneud cyfres o dybiaethau am yr achosion a gwneud rhagamcanion rhesymegol i ragfynegi maint unrhyw effeithiau neu ganlyniadau. Er enghraifft, gallai model dybio os bydd A yn digwydd ar amser neu dan amgylchiadau B, yna C fydd y canlyniad. Gellir addasu data a thybiaethau i gyflwyno sefyllfaoedd gwahanol a darogan gwahanol ganlyniadau - a gellid disgrifio'r rhain yn ganlyniadau buddiol neu andwyol. Gellir defnyddio'r rhain i gefnogi prosesau penderfynu.

Ceir llawer o enghreifftiau o fodelau sy'n cael eu defnyddio gan grwpiau yn Ewrop yn cynnwys BoD, ENHIS X-Prob (Mekel 2007). Mae'r rhain yn cynnwys DYNAMO-HIA<sup>7</sup> hefyd, sy'n offeryn Ewropeaidd ar y we a grëwyd fel rhan o brosiect a sefydlwyd yn 2007 i gefnogi'r broses o ragfynegi effeithiau ar iechyd yn sgil y ffactorau ehangach sy'n dylanwadu ar iechyd mewn polisiau Ewropeaidd.

<sup>7</sup> [http://www.dynamo-hia.eu/object\\_class/dyhia\\_features.html](http://www.dynamo-hia.eu/object_class/dyhia_features.html)

Er y gall y dechneg hon fod yn ddefnyddiol, ceir anfanteision, fel gyda'r dulliau ymateb i ddos. Nid yw'r model ond cystal â'r tybiaethau a wneir a'r data a ddefnyddir ac eto nid ydynt yn rhoi darlun ehangach o sut yr effeithir ar iechyd a lles y boblogaeth neu'r gymuned. Er y gellir gwneud rhagfynegiadau, gall fod yn anodd gwarantu sicrwydd y rhagfynegiadau hyn neu'r amrywiad ynddynt. Felly, dylai unrhyw ganlyniadau o fodlau neu ddulliau meintiol gael eu cyfuno â thystiolaeth a gwaith ymchwil eraill - yn cynnwys gwaith ar y cyd ag asiantaethau eraill a chyfranogiad gyda chymunedau i greu darlun mwy cyflawn a chytbwys o unrhyw effeithiau ar iechyd a lles.

### *Diagramau Achosol a Mapio*

Gall diagramau achosol<sup>8</sup> a mapio effeithiau fod yn ffordd ddefnyddiol o rag-weld effeithiau posibl cynnig ar iechyd. Gall creu diagram wahaniaethu unrhyw effeithiau, eu natur a'u maint ac unrhyw newidiadau posibl i iechyd a lles ar ffurf llun. Dylai map o'r math hwn gael ei fireinio a'i ddatblygu wrth i'r broses Asesu'r Effaith ar Iechyd fynd rhagddi.

Gall diagram achosol gysylltu llwybrau gyda'i gilydd ac amlygu'r rhyngweithio rhyngddynt. Gellir ei ddefnyddio fel sesiwn taflu syniadau i ddechrau proses Asesu'r Effaith ar Iechyd, ar y cam pennu cwmpas neu i ddangos yr effeithiau wrth i chi fwrw ati. Gellir trafod llwybrau a'u cynnwys neu eu dileu yn ystod y broses (yn dibynnu ar y wybodaeth a'r dystiolaeth a gesglir) i ddarparu diagram neu fap terfynol.



<sup>8</sup> <http://www.apho.org.uk/resource/view.aspx?RID=82294> – Enghreifftiau o ddiagramau achosol a mapio ar gyfer Asesu'r Effaith ar Iechyd

## CAM 4: Cyflwyno Adroddiadau ac Argymhellion

Ar ôl i'r dystiolaeth a'r data gael eu casglu ac os bydd y cydgysylltydd asesu'r effaith ar iechyd a/neu'r grŵp llywio yn fodlon nad oes bylchau mawr, dylid datblygu cyfres o argymhellion, wedi'u llywio gan gamau blaenorol y broses Asesu'r Effaith ar Iechyd. Dylai'r argymhellion hyn anelu at sicrhau'r manteision mwyaf posibl i iechyd a lles a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl. Gallant fod yn gyfle i 'lenwi' unrhyw fylchau a nodwyd yn y cynigion ac ailedrych ar unrhyw anghydraddoldebau iechyd (neu anghydraddoldebau eraill) a allai godi.

Mae angen i'r argymhellion:

- Fod yn glir ac yn gryno
- Bod yn realistig
- Bod yn rhai y gellir eu cyflawni
- Bod yn ymarferol o ran eu nifer
- Bod yn ddiduedd
- Adlewyrchu'r holl dystiolaeth a barn y cynrychiolwyr
- Cael eu cytuno drwy gonsensws

### Yr adroddiadau

Dylai'r wybodaeth a gesglir yn y cam asesu gael ei chasglu a'i chyflwyno ar ffurf sy'n hygyrch i'r gynulleidfa darged. Mae nifer o fformatau posibl yn amrywio o restr syml, tabl o ganfyddiadau'r gweithdy neu'r offeryn sgrinio, i adroddiad mwy cynhwysfawr. Mae angen i fformat ac arddull yr adroddiad ystyried y gynulleidfa darged a bod yn addas at y diben o ran hyd, iaith a'r defnydd o derminoleg. O ran arferion gorau, os bydd asesiad cynhwysfawr a thechnegol wedi cael ei gwblhau lle ceir cannoedd o dudalennau ac atodiadau, yna dylid darparu crynodeb annhechnegol a rhestr termau hefyd ar ffurf sy'n hawdd ei deall.

Dylid anfon adroddiad drafft i'r adolygwyr a/neu'r cyfranogwyr allu gwneud sylwadau arno, ychwanegu ato, gwneud newidiadau ac yna ddod i gonsensws. Yna dylid dosbarthu'r adroddiad terfynol i benderfynwyr allweddol ac unigolion a sefydliadau eraill y cytunwyd arnynt.

Ar hyn o bryd mae gan Uned Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru gronfa ddata o asesiadau ac adroddiadau a gwblhawyd ar ei gwefan a allai fod yn ddefnyddiol wrth edrych am ganllawiau ar sut i lunio adroddiad.



## CAM 5: Monitro a Gwerthuso

### Diben

Dylai hyn fod yn rhan annatod o'r broses ar ôl rhoi'r penderfyniad ar waith, ond yn aml caiff y cam pwysig hwn ei esgeuluso neu'i anwybyddu. Gan mai nod asesu'r effaith ar iechyd yw bod yn sail i benderfyniadau, mae'n ddefnyddiol gwerthuso sut y defnyddiwyd y wybodaeth, ei defnyddioldeb fel y caiff ei gweld gan y gynulleidfa/cynulleidfaedd targed a ph'un a yw wedi dylanwadu ar benderfyniadau a datblygiadau. Bydd hyn yn helpu i asesu pa mor effeithiol yw'r broses Asesu'r Effaith ar Iechyd o ran dylanwadu ar benderfyniadau mewn awdurdodau lleol unigol ledled Cymru. Efallai yr hoffai'r sefydliadau ddatblygu eu ffurflenni a'u systemau monitro eu hunain i sicrhau bod asesiadau'n cael eu hadolygu yng ngoleuni'r penderfyniadau a wneir.

Yn ogystal mae adroddiadau'n rhoi cyfle i fyfyrion ar y broses Asesu'r Effaith ar Iechyd, yr amser a'r adnoddau a ddefnyddiwyd, beth oedd yn llwyddiannus a sut y cafodd yr anawsterau eu goresgyn. Mae dogfennau o'r math yma yn ffynhonnell ddysgu a dylid eu rhannu fel sail i ddatblygiadau yn y dyfodol. Mae ffurflen ddosbarthu ar gael ar wefan WHIASU sy'n rhoi cyfle i rannu profiadau gyda phobl a sefydliadau eraill sy'n defnyddio'r broses Asesu'r Effaith ar Iechyd ledled Cymru.

### Adolygu Ansawdd Asesu'r Effaith ar Iechyd

Sut yr ydym yn sicrhau bod prosesau Asesu'r Effaith ar Iechyd yn addas at y pwrpas, yn cynrychioli barn ystod eang o randdeiliaid perthnasol, yn gadarn ac yn cael eu cynnal yn unol ag arferion gorau?

Cynhelir prosesau Asesu'r Effaith ar Iechyd gan ystod eang o unigolion a sefydliadau – o grwpiau cymunedol i gwmnïau ymgynghori arbenigol. Er mwyn bod yn hyderus bod adroddiad Asesu'r Effaith ar Iechyd o safon uchel, gall fod yn ddefnyddiol cynnal adolygiad ansawdd drwy ddefnyddio offeryn strwythuredig. Bydd hyn yn eich galluogi i arfarnu'r adroddiad yn feirniadol, a gall canlyniad hynny ddylanwadu ar beth fydd yn digwydd neaf, er enghraifft, p'un a fydd angen gwneud rhagor o waith. Efallai y bydd angen cynnal adolygiad ffurfiol er mwyn rhoi sicrwydd bod asesiad sy'n cael ei gyflwyno fel rhan o gais am gyllid wedi cynnwys popeth, er mwyn cymeradwyo'r adroddiad neu fynd i'r afael â phryderon y gymuned. Mae nifer o offerynnau adolygu ar gael, a gellir eu lawrlwytho o'r adran adnoddau ar wefan WHIASU.

# ATODIAD 1 – Rhestr Wirio o Ffactorau sy'n Dylanwadu ar Iechyd a Lles

(Canllaw yw'r rhestr hon ac nid yw'n gynhwysfawr)

## 1. Ffordd o fyw

Deiet	Gweithgaredd rhywiol
Gweithgaredd corfforol	Gweithgaredd arall sy'n golygu cymryd risg
Y defnydd o alcohol, sigarêts, cyffuriau heb eu rhagnodi	

## 2. Ffactorau cymdeithasol a chymunedol eraill sy'n dylanwadu ar iechyd

Trefniadaeth a swyddogaethau o fewn y teulu	Ynysu cymdeithasol
Grym a dylanwad dinasyddion	Pwysau gan gymheiriaid
Cymorth cymdeithasol a rhwydwaith cymdeithasol	Hunaniaeth gymunedol
Bod yn gymdogol	Ethos diwylliannol ac ysbrydol
Ymdeimlad o berthyn	Hiliaeth
Balchder lleol	Allgáu cymdeithasol o fath arall
Rhaniadau yn y gymuned	

## 3. Amodau byw/amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd

Yr amgylchedd adeiledig	Mannau gwyrdd
Cynllun y gymdogaeth	Diogelwch cymunedol
Tai	Arogl
Amgylchedd dan do	Gwaredu gwastraff
Sŵn	Peryglon ar y ffyrdd
Ansawdd aer a dŵr	Peryglon o gael anaf
Pa mor ddeniadol yw ardal	Ansawdd a diogelwch ardaloedd chwarae

## 4. Amodau economaidd sy'n effeithio ar iechyd

Diweithdra	Math o gyflogaeth
Incwm	Amodau'r gweithle
Anweithgarwch economaidd	

## 5. Mynediad i wasanaethau a'u hansawdd

Gwasanaethau meddygol	Amwynderau cyhoeddus
Gwasanaethau gofalu eraill	Trafnidiaeth yn cynnwys parcio
Cyngor gyrfaoedd	Addysg a hyfforddiant
Siopau a gwasanaethau masnachol	Technoleg gwybodaeth

## 6. Ffactorau macro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd

Polisiau'r llywodraeth	Amrywiaeth biolegol
Cynnyrch mewnwladol crynswth	Yr hinsawdd
Datblygu economaidd	

# ATODIAD 2 – Rhestr Wirio o Grwpiau sy'n Agored i Niwed/Difreintiedig

(Noder mai canllaw yw'r rhestr hon ac nad yw'n gynhwysfawr)

Bydd y grwpiau targed a nodir fel grwpiau sy'n agored i niwed neu ddifreintiedig yn dibynnu ar nodweddion y boblogaeth leol a natur y cynnig ei hun. Y grwpiau hynny sydd fwyaf difreintiedig a/neu agored i niwed yw'r rhai sy'n arddangos nifer o nodweddion, er enghraifft, plant sy'n byw mewn tldi. Felly dim ond canllaw yw'r rhestr hon a gallai fod yn briodol canolbwyntio ar grwpiau sy'n wynebu nifer o anfanteision.

## *Grwpiau sy'n gysylltiedig ag oed\**

- Plant a phobl ifanc
- Pobl hŷn

## *Grwpiau sy'n gysylltiedig ag incwm*

- People on low income
- Economically inactive
- Unemployed/workless
- People who are unable to work due to ill health

## *Grwpiau y gwahaniaethir yn eu herbyn neu grwpiau sy'n wynebu anfantaes gymdeithasol arall*

- Pobl ag anabledau/anawsterau corfforol neu anabledau/anawsterau dysgu
- Grwpiau ffoaduriaid
- Pobl sy'n ceisio lloches
- Teithwyr
- Teuluoedd un rhiant
- Pobl lesbiaid, hoyw a thrawsrywiol
- Grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig \*\*
- Grwpiau crefyddol\*\*

## *Grwpiau daearyddol*

- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd a chanddynt ddangosyddion economaidd a/neu iechyd gwael
- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd ynysig/gorboblog
- Pobl na allant gael mynediad i wasanaethau a chyfleusterau

Dylid asesu'r effaith ar oedolion yn gyffredinol hefyd. Yn ogystal, efallai y byddai'n briodol asesu'r effaith ar wahân ar ddynion a menywod.

\* Gallech nodi'r ystod oedran neu dargedu gwahanol grwpiau oedran ar gyfer ystyriaeth arbennig.

\*\* Efallai y bydd angen i chi eu nodi.

## ATODIAD 3 – Offeryn a Thaflen Cofnod Sgrinio/Arfarnu Asesu'r Effaith ar Iechyd

Gellir defnyddio'r Offeryn Sgrinio/Arfarnu fel fframwaith a man cychwyn ar gyfer 'sgrinio' ac 'arfarnu' ond mae'n hyblyg a dylid ei addasu ar gyfer cyd-destunau lleol. Mae'n bwysig ystyried pwy sy'n debygol o gael ei effeithio gan gynnig ochr yn ochr â'r asesiad o'r effeithiau posibl a sut y gellid eu lliniaru. Rhoddir rhestr o grwpiau poblogaeth sy'n agored iawn i achosion salwch yn Atodiad 2. Dylid asesu'r effaith gyffredinol ar y boblogaeth hefyd. Darperir rhestr wirio fanylach ar iechyd a diogelwch yn Atodiad 1 i helpu i nodi pa ffactorau sy'n dylanwadu ar gyfer iechyd sy'n debygol o gael eu heffeithio gan gynnig. Unwaith eto, nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr.

Os caiff ei ddefnyddio ar gyfer 'sgrinio' mae'n bwysig cofio mai asesiad cychwynnol o'r effeithiau yw hwn – nid oes angen gormod o fanylion ac nid yw'n bosibl cael gormod o fanylion ar hyn o bryd. Fodd bynnag, os caiff ei ddefnyddio fel sail ar gyfer asesiad cyflym, dylid ystyried rhagor o fanylion a chyflwyno neu chwilio am ragor o dystiolaeth.

Gellir rhestru argymhellion realistig ar ddiwedd y sesiwn. Gall y rhain fod yn welliannau i sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl neu'n gamau i liniaru effeithiau andwyol neu argymhelliad am asesiad manylach. Gellir cofnodi'r camau nesaf.

Nid oes ffordd bendant o benderfynu p'un a ddylid asesu'r effaith ar iechyd. Fodd bynnag, dylai'r offeryn sgrinio helpu i ofyn: a oes effeithiau sylweddol, cyfleoedd wedi'u colli neu gyfle i wneud gwelliannau ar gyfer rhai grwpiau neu bob un ohonynt? Os ymddengys y byddai'r cynigion yn elwa ar asesiad manylach, yna dylid cychwyn arfarniad.

## Taflen Cofnod Sgrinio Asesu'r Effaith ar Iechyd

Mae taflenni cofnod sgrinio sy'n barod i'w defnyddio ar gael i'w lawrlwytho o wefan WHIASU.

Yn nodweddiadol, byddai'r wybodaeth ganlynol yn cael ei chofnodi:

- Pwy sy'n cynnal yr asesiad
- Teitl y rhaglen, y polisi neu'r prosiect
- Disgrifiad (yn cynnwys y prif nodau ac amcanion)
- Natur y Dystiolaeth i'w hystyried/i'w defnyddio (yn cynnwys data llinell sylfaen, ymchwil technegol ac ansoddol, gwybodaeth arbenigol a chymunedol)
- Grwpiau poblogaeth allweddol y mae'r rhaglen, polisi neu'r prosiect yn effeithio arnynt (gan ddefnyddio'r rhestr o grwpiau sy'n agored i niwed a grwpiau difreintiedig yn Atodiad 2 fel canllaw).

Gan ddefnyddio'r **rhestr o ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a lles** (yn Atodiad 1), ystyriwch sut (p'un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol) ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach) y mae'r grwpiau hyn o fewn y boblogaeth a'r boblogaeth gyffredinol ei hun yn cael eu heffeithio gan y cynnig neu sut y gallai'r cynnig arwain at oblygiadau iddynt - a chrynhoi hynny ar gyfer pob adran ar y daflen sgrinio isod.

Gofyn y cwestiwn:

*'Sut y mae'r cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y ffactorau hyn sy'n dylanwadu ar iechyd, er enghraifft, gweithgaredd corfforol neu ddeiet (yn yr adran Ffordd o Fyw)?'*

## Taflen cofnod sgrinio/asesu enghreifftiol

	Ffordd o fyw		Grwpiau sy'n Agored i Niwed /Dosbarthiad
	(Cadarnhaol) +	(Negyddol) -	
Deiet			
Gweithgaredd corfforol			
Y defnydd o alcohol, sigarêts, cyffuriau na chânt eu rhagnodi			
Gweithgaredd rhywiol			
Gweithgaredd arall sy'n golygu cymryd risg			
Arall...			

## Argymhellion

**A yw'r effeithiau a nodwyd uchod yn ddigon i gyfiawnhau cynnal proses asesu'r effaith ar iechyd fwy cynhwysfawr?**

Ydynt/Nac ydynt

Os nad ydynt, beth yw'r rhesymau dros beidio â chynnal asesiad

**A oes angen cymryd rhagor o gamau o ganlyniad i'r broses asesu'r effaith ar iechyd hon?**

Oes/Nac oes

Os oes, amlinellwch y camau (rhestrwch yr argymhellion a/neu'r camau lliniaru/gwella yma)

Os bydd angen asesiad arall, amlinellwch y camau nesaf (E.e. Dyddiad ac amser y cyfarfod pennu cwmpas)

**A oes asesiadau eraill wedi cael eu cynnal neu a fydd asesiadau eraill yn cael eu cynnal? h.y. Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb, Asesu'r Effaith Amgylcheddol. Ynteu a fydd hyn yn rhan o asesiad arall?**

Os felly, amlinellwch beth yw'r asesiad(au)

# ATODIAD 4 – Rhestr Wirio Pennu Cwmpas Proses Asesu'r Effaith ar Iechyd

Mae Rhestr Wirio Pennu Cwmpas Proses Asesu'r Effaith ar Iechyd ar gael i'w lawrlwytho o wefan WHIASU.

Yn ystod y cam hwn pennir cylch gorchwyl a chynllun ar gyfer proses Asesu'r Effaith ar Iechyd. Mae'n cynnwys gofyn cwestiynau a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r asesiad.

Nid oes angen i offeryn neu sesiwn sgrinio fod wedi cael eu cwblhau o'r blaen. Fodd bynnag, mae offeryn sgrinio yn ddefnyddiol ac yn fuddiol i helpu i benderfynu ar ffocws yr asesiad. Yn ddelfrydol, ni ddylid cwblhau'r ymarfer pennu cwmpas ar ei ben ei hun. Dylid darllen y cwestiynau hyn ar y cyd â'r canllawiau blaenorol yn yr adran Pennu Cwmpas (gweler Pennod 5 - CAM 2: Pennu Cwmpas).

- Beth yw'r amserlen ar gyfer yr asesiad? (Erbyn pryd y mae'n rhaid gwneud penderfyniadau pwysig?)
- Pa adnoddau ariannol a dynol sydd ar gael?
- Beth yw ffiniau daearyddol y prosiect? (A oes angen ystyried yr effaith ar bobl mewn ardaloedd neu gymunedau eraill y gallai'r prosiect effeithio arnynt?)
- Pa fath o asesiad sydd ei angen ac/neu sy'n bosibl yn yr amser sydd ar gael – pen desg, cyflym neu gynhwysfawr?
- A ddylai'r asesiad fod yn ymarfer mewnol ynteu a ddylid comisiynu rhywun i wneud yr arfarniad?
- A ddylid sefydlu grŵp llywio a phwy a ddylai fod yn gysylltiedig ag ef?
- Pa elfennau o'r polisi/prosiect/cynllun y dylai'r arfarniad ganolbwyntio arno? (Dylai'r offeryn sgrinio bennu hyn)
- Pwy yw'r rhanddeiliaid?
- Beth yw swyddogaethau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n ymwneud â'r broses Asesu'r Effaith ar Iechyd? (Efallai na fydd modd ateb hyn yn awr – gellid penderfynu ar ôl cyfarfod cyntaf y grŵp llywio neu mewn cyfarfod ar wahân)
- Pa ddulliau a ddefnyddir i gasglu tystiolaeth?

# Dolenni a gwybodaeth

Mae'r dolenni canlynol yn darparu offer, adnoddau a deunyddiau dysgu eraill sy'n gysylltiedig â'r broses Asesu'r Effaith ar Iechyd. Mae rhai yn rhoi mynediad i astudiaethau achos sy'n ddefnyddiol iawn fel tystiolaeth i ategu neu herio penderfyniadau cychwynnol am effeithiau posibl cynigion.

## Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru

[www.whiasu.wales.nhs.uk](http://www.whiasu.wales.nhs.uk)

Cyhoeddi adroddiadau, canllawiau, ymchwil a newyddion am asesu'r effaith ar iechyd. Mae'n cynnwys adrannau ar wahân ar 'Asesu'r Effaith ar Iechyd a Chynllunio' a 'Taflenni Astudiaethau Achos' ac 'Adroddiadau ar Astudiaethau Achos'.

## Llywodraeth Cymru

<http://new.wales.gov.uk/topics/health/improvement/communities/healthimpact/>

[;jsessionid=L31JTdyCdFrr3YKNM623ch8nSpy7R8H9vLPKWPDFHzJkS0V3x9Nj!136109946?lang=cy](http://new.wales.gov.uk/topics/health/improvement/communities/healthimpact/?jsessionid=L31JTdyCdFrr3YKNM623ch8nSpy7R8H9vLPKWPDFHzJkS0V3x9Nj!136109946?lang=cy)

Gwybodaeth am bob agwedd ar bolisiau a strategaethau Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag iechyd a lles.

## Prif Swyddog Meddygol Cymru

<http://new.wales.gov.uk/topics/health/ocmo/?lang=cy>

Astudiaethau achos newydd o asesu'r effaith ar iechyd a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru ac mae'n rhoi mynediad i'r dogfennau polisi a'r wybodaeth berthnasol ar feysydd gwaith perthnasol eraill ym maes iechyd cyhoeddus sy'n cael ei wneud yng Nghymru.

## Iechyd Cyhoeddus Cymru

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/hafan>

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cefnogi nifer o brosesau Asesu'r Effaith ar Iechyd ac mae manylion a gwybodaeth amdanynt i'w gweld ar y wefan hon. Ceir adran data a gwybodaeth am iechyd sy'n cynnwys map ystadegol rhyngweithiol o Gymru.

## Porth Asesu'r Effaith ar Iechyd

[http://www.apho.org.uk/default.aspx?QN=P\\_HIA](http://www.apho.org.uk/default.aspx?QN=P_HIA)

Gwybodaeth, adnoddau, astudiaethau achos, ffynonellau tystiolaeth a rhwydweithiau i gefnogi'r defnydd o broses Asesu'r Effaith ar Iechyd.

## Comisiwn Iechyd Llundain

<http://www.london.gov.uk/lhc/hia/>

Mae'r adran ar asesu'r effaith ar iechyd yn cynnwys canllawiau defnyddiol a manylion yr asesiadau a gynhaliwyd ar bob un o'r strategaethau meiri statudol.

## Sefydliad Iechyd y Byd (WHO)

<http://www.who.int/hia/en/>

Mynediad i astudiaethau achos, offer, ffynonellau tystiolaeth a'r berthynas rhwng y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a gwybodaeth arall am ddatblygiadau cyfredol.



## Canolfan Polisi Iechyd Ewropeaidd (EHP)

<http://www.euro.who.int/en/home>

Rhan o Swyddfa Ranbarthol Ewrop Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), sy'n darparu gweithdai a chyfarfodydd i ddatblygu a dosbarthu syniadau ac arferion da ar asesu'r effaith ar iechyd.

## Y Consortiwm Rhyngwladol Asesu'r Effaith ar Iechyd (IMPACT)

<http://www.liv.ac.uk/ihia/>

Cronfa ddata o adnoddau a mynediad i Ganllawiau Glannau Merswy ar Asesu'r Effaith ar Iechyd.

## Cymdeithas Genedlaethol Asesu Effaith (IAIA)

<http://www.iaia.org/>

Yn cynnig cymorth a fforwm trafod syniadau i unigolion a sefydliadau sy'n ymwneud â gwahanol fathau o dystiolaeth asesu effaith ar y cysylltiadau rhwng y ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd. Mae'r wefan hon yn darparu gwybodaeth am y cysylltiadau rhwng ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd, meysydd polisi ac iechyd, yn ogystal â'r hyn sy'n hysbys am effaith ymyriadau penodol ar iechyd.

## Y Sefydliad Cenedlaethol Dros Ragoriaeth Glinigol (NICE)

<http://www.nice.org.uk/>

Crynodebau o adolygiadau ac adroddiadau llawn a gomisiynwyd neu a gynhaliwyd gan NICE, yn ogystal â chysylltiadau i sefydliadau eraill. Mae'r adran 'adnoddau a dolenni' yn cynnwys adroddiadau gan NICE ac mae'r adran 'ymchwil a thystiolaeth' yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol.

## Blog Asesu'r Effaith ar Iechyd

<http://healthimpactassessment.blogspot.com/>

Y newyddion diweddaraf, adroddiadau a gwybodaeth am brosesau Asesu'r Effaith ar Iechyd o bob cwr o'r byd.

## Sefydliad Iechyd Cyhoeddus Iwerddon

<http://www.publichealth.ie/hia>

Adolygiadau defnyddiol o wybodaeth am brosesau Asesu'r Effaith ar Iechyd, a chanllawiau, gwybodaeth ac adroddiadau am y maes.

## Rhwydwaith Asesu'r Effaith ar Iechyd yr Alban

<http://www.healthscotland.com/resources/networks/HIAresources.aspx>

Cyd-destun defnyddiol ar gyfer defnyddio proses Asesu'r Effaith ar Iechyd mewn Cynlluniau Datblygu Lleol ac Asesiadau Amgylcheddol Strategol, ynghyd â chanllawiau, gwybodaeth ac adroddiadau Asesu'r Effaith ar Iechyd.

## Yr Adran Iechyd yn Lloegr

[http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Legislation/Healthassessment/DH\\_647](http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Legislation/Healthassessment/DH_647)

Adroddiadau, adolygiadau o dystiolaeth, dogfennau polisi a deunydd asesu effaith ar iechyd cysylltiedig sy'n berthnasol i Loegr a'r gwledydd datganoledig.

# Tystiolaeth a Gwybodaeth

## Tystiolaeth o'r cysylltiadau rhwng y ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd

Mae'r gwefannau hyn yn darparu gwybodaeth am y cysylltiadau rhwng y ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd, meysydd polisi ac iechyd, yn ogystal â'r hyn sy'n hysbys am effaith ymyriadau penodol ar iechyd.

### Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol

[www.nice.org.uk/](http://www.nice.org.uk/)

Gweler yr adran 'Dolenni a Gwybodaeth'.

### Swyddfa Ranbarthol Ewrop Sefydliad Iechyd y Byd (WHO)

[www.who.dk/healthtopics/TopPage](http://www.who.dk/healthtopics/TopPage)

Gwybodaeth am y cysylltiadau rhwng y ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd. Mae hefyd yn rhedeg y Rhwydwaith Tystiolaeth Iechyd, yn bennaf ar gyfer penderfyniadau ym maes iechyd cyhoeddus yn Rhanbarth Ewropeaidd WHO. Mae dwy elfen allweddol i hyn: adran 'cwestiynau ac atebion' lle y gallwch anfon eich ymholiadau a rhestr adnoddau 'ffynonellau gwybodaeth'.

### Canolfan Adolygiadau a Dosbarthu (CRD) y GIG, Prifysgol Caerefrog

[www.york.ac.uk/inst/crd/](http://www.york.ac.uk/inst/crd/)

Crynodebau o adolygiadau a gynhaliwyd gan CRD ynghylch yr hyn sy'n hysbys am ymyriadau effeithiol i wella iechyd a mynd i'r afael â salwch. Mae'r rhan fwyaf yn ymwneud â thriniaethau meddygol ond mae'n cynnwys Tystiolaeth gynhwysfawr o adolygiadau systemataidd sy'n berthnasol i weithredu'r agenda iechyd cyhoeddus ehangach. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys Cronfa Ddata o Grynodedbau o Adolygiadau o Effeithiau sy'n darparu crynodebau o adolygiadau systemataidd sydd wedi bod yn destun asesiad ansawdd. Mae rhai o'r rhain yn ymdrin â ffactorau ehangach sy'n dylanwadu ar iechyd.

### The Campbell Collaboration

[www.campbellcollaboration.org](http://www.campbellcollaboration.org)

Mynediad i dystiolaeth am effeithiau nifer o ymyriadau cymdeithasol, addysgol a chyfiawnder troseddol.

### The Cochrane Collaboration

<http://www.cochrane.org/>

Gwybodaeth am ymchwil iechyd a gofal iechyd sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

### Cronfa Ddata Trip

[www.tripdatabase.com](http://www.tripdatabase.com)

Mae'n chwilio dros 55 o safleoedd sy'n cynnwys gwybodaeth ac ymchwil o ansawdd sy'n gysylltiedig â meddygaeth ac iechyd. Mae'n darparu mynediad i ddeunydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar y we yn ogystal ag erthyglau o'r British Medical Journal. Er bod iddo ffocws meddygol, mae'n bosibl cael mynediad i dystiolaeth sy'n ymwneud â ffactorau ehangach sy'n dylanwadu ar iechyd.

## Bwletinau Tystiolaeth Iechyd Cymru

<http://hebw.uwcm.ac.uk>

Adolygir ystod o dystiolaeth ar nifer o bynciau, yn cynnwys canser, atal anafiadau, amgylcheddau iach ac iechyd meddwl.

## Bandolier

<http://www.jr2.ox.ac.uk/bandolier/>

Yn yr adran dystiolaeth cesglir gwybodaeth am nifer o bynciau iechyd. Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth yn feddygol ond yn yr adran ar fyw'n iach ceir tystiolaeth ar ymyriadau ffordd o fyw ac iechyd.

## Canolfan Ymchwil Meddygol (MRC), Uned Gwyddor Gymdeithasol ac Iechyd Cyhoeddus, Prifysgol Glasgow

[www.sphsu.mrc.ac.uk/](http://www.sphsu.mrc.ac.uk/)

Nod yr Uned yw hyrwyddo iechyd dynol drwy astudio dylanwadau cymdeithasol ac amgylcheddol ar iechyd. O ddiddordeb penodol bydd yr adran ar werthuso effeithiau ymyriadau cymdeithasol ar iechyd. Mae'r uned yn canolbwyntio ar feysydd nad ydynt yn rhan o'r sector iechyd fel tai ac adfywio yn ogystal â chynnal Canolfan ESRC ar gyfer Polisi Iechyd Cyhoeddus sy'n seiliedig ar Dystiolaeth.

## Canolfan Polisi Iechyd Cyhoeddus sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) (yn Uned Gwyddor Gymdeithasol ac Iechyd Cyhoeddus yr MRC ym Mhrifysgol Glasgow)

<http://www.sphsu.mrc.ac.uk/index.php>

Wedi'i sefydlu i ymateb i'r galw cynyddol am ymyriadau polisi rhesymegol ac effeithiol yn seiliedig ar ddealltwriaeth hyddysg o beth sy'n gweithio. Mae nifer o astudiaethau ar y gweill ar hyn o bryd.

## Cydweithredu er mwyn Lleihau Damweiniau a Rheoli Anafiadau (CAPIC)

[www.capic.org.uk/](http://www.capic.org.uk/)

Rhith sefydliadu, sy'n agored i bawb ac sy'n cael ei redeg gan grŵp llywio o bobl a sefydliadau a chanddynt ddiddordeb mewn atal anafiadau. Un o'u rolau yw hyrwyddo gwerthuso mentrau atal anafiadau. Maent yn darparu cyfeiriadau i waith ymchwil cyhoeddedig, mewn nifer o feysydd, yn ogystal ag astudiaethau cyfredol a gynhelir gan aelodau CAPIC. Maent hefyd yn darparu gwybodaeth am fentrau cyfredol yng Nghymru a thu hwnt.

## Gostwng Troseddu

[www.crimereduction.gov.uk](http://www.crimereduction.gov.uk)

Wedi'i anelu at roi gwybodaeth a chynghor i ymarferwyr diogelu cymunedau ac atal troseddau er mwyn gostwng troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu hardaloedd lleol. Mae'n cynnwys tystiolaeth ar ystod eang o bynciau o deledu cylch cyfyng i droseddau â chymhelliad hiliol.

## Y Labordy Ymchwil i Drafnidiaeth

[www.trl.co.uk](http://www.trl.co.uk)

Ystod eang o waith ymchwil ar ddiogelwch ffyrdd, effaith ar lif traffig a materion amgylcheddol fel sŵn ac allyriadau traffig.

## Yr Adran Priffyrdd

[www.highways.gov.uk](http://www.highways.gov.uk)

Yn comisiynu ac yn cynnal gwaith ymchwil ar nifer o faterion yn ymwneud â thraffig ffyrdd yn cynnwys ansawdd aer, mesurau gostegu traffig ac effeithiau tagfeydd traffig a lliniaru tagfeydd ar y gymuned.

## Y Sefydliad Ewropeidd ar gyfer Gwella Amodau Byw a Gweithio

[www.eurofound.ie](http://www.eurofound.ie)

Disgrifia ei hun fel corff tridarn yr Undeb Ewropeidd a sefydlwyd i gyfrannu at gynllunio a sefydlu amodau byw a gweithio gwell. Mae'n darparu gwybodaeth am y cysylltiadau rhwng amodau gwaith ac iechyd.

## Yr Athrofa Iechyd Gwledig (IRH)

[www.rural-health.ac.uk](http://www.rural-health.ac.uk)

Yn cynnal ystod eang o waith ymchwil ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd a'r amgylchedd gwledig.

## Planet Health Cymru

<http://www.planethealthcymru.org/>

Mae Planet Health Cymru yn 'siop un stop' sy'n cynorthwyo cydweithio ac mae'n cynnwys gwybodaeth allweddol, offer, dogfennau ac enghreifftiau o arfer cyfredol ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio ym maes cynllunio, trafndiaeth, dylunio trefol, datblygiad, pensaerniaeth ac iechyd cyhoeddus, yn ogystal ag unrhyw un a chanddo gyfrifoldeb dros wella iechyd y genedl.

## Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru

<http://www.publichealthwalesobservatory.wales.nhs.uk/>

Mae Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dîm o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae ei staff yn meddu ar sgiliau o ran dadansoddi data iechyd cyhoeddus, dod o hyd i dystiolaeth a rheoli gwybodaeth. Yr Arsyllfa yw'r lle y gall penderfynwyr a'r cyhoedd gael gwybodaeth ddefnyddiol ym maes iechyd cyhoeddus am bobl Cymru.

## Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

[www.statistics.gov.uk](http://www.statistics.gov.uk)

Data'r cyfrifiad a gwybodaeth am boblogaeth sy'n gysylltiedig â ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd.

## Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

<http://wales.gov.uk/topics/statistics/theme/wimd/wimd2011/?lang=en>

MALIC yw'r mesur amddifadedd swyddogol mewn ardaloedd bach o Gymru. Mae wedi'i greu o ddata ar wyth math o amddifadedd: incwm, tai, cyflogaeth, mynediad i wasanaethau, addysg, iechyd, diogelwch cymunedol a'r amgylchedd ffisegol.

# Rhestr termau

## Anghydraddoldeb iechyd:

Gwahaniaethau mewn statws iechyd neu ddsbarthiad ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd rhwng gwahanol grwpiau poblogaeth. Gellir priodoli rhai anghydraddoldebau i amrywiadau biolegol neu ddewis a gellir priodoli eraill i'r amgylchedd allanol ac amodau sydd y tu hwnt i reolaeth yr unigolion dan sylw. Yn yr achos cyntaf gallai fod yn amhosibl neu'n annerbyniol yn foesebol neu'n ideolegol i newid ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd ac felly mae anghydraddoldebau yn anochel (Sefydliad Iechyd y Byd).

## Annhegwch iechyd:

Lle mae modd osgi dosbarthiad anghyfartal anghydraddoldebau iechyd neu lle mae hynny'n ddiangen yn ogystal â bod yn anghyfiawn ac yn annheg, mae'r anghydraddoldebau iechyd hefyd yn arwain at annhegwch iechyd (Sefydliad Iechyd y Byd).

## Asesiad Amgylcheddol Strategol:

Nod Asesiad Amgylcheddol Strategol yw cynyddu'r ystyriaeth o faterion amgylcheddol yn ystod y broses benderfynu sy'n gysylltiedig â dogfennau strategol fel cynlluniau, rhaglenni a strategaethau. Mae'n nodi effeithiau amgylcheddol arwyddocaol sy'n debygol o ddeillio o weithredu'r cynllun neu dulliau amgen o weithredu'r cynllun. Cyflwynir canfyddiadau'r asesiad mewn adroddiad amgylcheddol yr ymgynghorir arno gyda'r cyhoedd, ochr yn ochr â drafft o'r cynllun. Rhaid i faterion a godir yn yr adroddiad gael eu hystyried gan y sawl sy'n llunio'r cynllun cyn i'r cynllun gael ei fabwysiadu'n ffurfiol (Asiantaeth yr Amgylchedd).

## Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol:

Y broses o nodi, rhagfynegi, gwerthuso a lliniaru effeithiau bioffisegol, cymdeithasol ac effeithiau perthnasol eraill cynigion datblygu cyn i benderfyniadau pwysig gael eu gwneud a chyn ymrwymo (Cymdeithas Ryngwladol Asesu'r Effaith)

## Asesu'r Effaith ar Iechyd:

Cyfuniad o weithdrefnau, dulliau ac offer a ddefnyddir i farnu effaith bosibl polisi, rhaglen neu brosiect ar iechyd poblogaeth, a dosbarthu'r effeithiau hynny o fewn y boblogaeth (Canolfan Polisi Iechyd Ewrop).

## Cyfiawnder Amgylcheddol:

Sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg a'u cynnwys yn ystyrllon, beth bynnag eu hil, eu lliw, eu tarddiad ethnig neu eu hincwm mewn perthynas â datblygu, gweithredu a gorfodi cyfreithiau, rheoliadau a pholisïau amgylcheddol (Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr UD)

## Cyfiawnder cymdeithasol:

Dosbarthiad manteision ac anfanteision o fewn cymdeithas (Oxford English Dictionary).

### Grŵp Llywio:

Grŵp o bobl sy'n dod ynghyd i oruchwylio darn o waith fel proses Asesu'r Effaith ar Iechyd. Yn nodweddiadol gall grŵp llywio gynnwys cynrychiolwyr grwpiau proffesiynol perthnasol, asiantaethau statudol allweddol a'r gymuned leol a gall ei gylch gwaith gynnwys goruchwylio datblygiad a chynnydd y gwaith; cytuno ar y fframwaith methodolegol a'r terfynau amser; cyfrannu gwybodaeth leol; gweithredu fel pont rhwng partneriaid; hwyluso'r broses o roi argymhellion yr asesiad ar waith; a helpu i gymhathu a dosbarthu'r gwersi a ddysgir (Sefydliad Iechyd y Byd).

### Ffactorau cymdeithasol/ehangach sy'n dylanwadu ar iechyd:

Mae ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd yn ffactorau sy'n dylanwadu ar statws iechyd ac sy'n pennu'r gwahaniaethau iechyd neu anghydraddoldebau iechyd. Maent yn niferus ac yn amrywiol ac yn cynnwys: ffactorau naturiol a biolegol, fel oedran, rhyw ac ethnigrwydd; ymddygiad a ffordd o fyw, fel ysmegu, yfed alcohol, deiet ac ymarfer corff; yr amgylchedd ffisegol a chymdeithasol, yn cynnwys ansawdd tai, y gweithle a'r amgylchedd trefol a gwledig ehangach; a mynediad i ofal iechyd (Sefydliad Iechyd y Byd).



# Cyfeiriadau

Barton H. a Grant M (2006) A health map for the local human habitat. *The Journal of the Royal Society for the Promotion of Health*, 126: 252-253.

Canolfan Polisi Iechyd Ewrop (1999) *Health Impact Assessment: Main concepts and suggested approach (Consensus Gothenburg)*, Brwsel: Canolfan Polisi Iechyd Ewrop.

Chadderton C, Elliott E a Williams GH (2008) *Involving the Public in HIA: An evaluation of current practice in Wales*. Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Caerdydd, Prifysgol Caerdydd.

Dahlgren G ac Whitehead M (1991) *Policies and strategies to promote social equity in health*. Stockholm, Institute for Futures Studies.

Elliott E a Williams G (2008) Developing Public Sociology through health impact assessment (HIA). *Sociology of Health & Illness*, Cyfrol 30 Rhif 7 tud 1101-1116.

Elliott E, Harrop E, ac Williams GH (2010) Contesting the science: public health knowledge and action in controversial land-use developments, in P. Bennett, K Calman, S Curtis a D

Fischbacher-Smith (eds) *Risk Communication and Public Health (second edition)*, Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen.

Gwefan Data Cymru. <http://www.dataunitwales.gov.uk/ProductsServices.asp?cat=235>. Fel ar 23 Awst 2011.

Gwefan Porth Gweithredu Ewrop ar Anghydraddoldebau Iechyd <http://www.health-inequalities.eu/HEALTHY/EN/events/> (Fel ar Tachwedd 28ain 2011).

Lester C a Temple M (2004) Rapid collaborative health impact assessment: a three-meeting process. *Public Health Cyfrol* 118, Rhifyn 3, Ebrill 2004, t 218-224.

Llywodraeth Cymru (2011) *Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb: Lleihau Anghydraddoldebau Iechyd: Cynllun Gweithredu Strategol* (dogfen weithio).

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003) Cymru: gwlad well, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) *Creu'r cysylltiadau: Gwell gwasanaethau i Gymru*.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) *Gwella Iechyd a Lleihau Anghydraddoldebau: Arweiniad ymarferol i asesu'r effaith ar Iechyd*.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) *Cymru'n un – Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru*.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) *Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG)*.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) *Datblygu Strategaethau Cyfranogiad Lleol*.

Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2002) *Nodyn Cyngor Technegol 21*.

Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2009) *Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo*.

Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2006) *Datganiad Polisi Cynllunio Interim Drafft y Gweinidog 02/06*.

Mekel O (2007) The Quality of prediction in HIA and organisational constraints. European Meeting on Health and Health Systems Impact Assessment, Lisbon, 2007. Cyflwyniad ar gyfer gweithdy.

Mindell J et al (2006) A Guide to Reviewing Published Evidence in Health Impact Assessment.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru <http://wales.gov.uk/topics/statistics/theme/wimd/wimd2011/?lang=cy> (Fel ar 23ain Awst 2011).

Sefydliad Iechyd y Byd (1948). Rhaglith i Gyfansoddiad Sefydliad Iechyd y Byd fel y'i mabwysiadwyd gan y Gynhadledd Iechyd Ryngwladol, Efrog Newydd, 19-22 Mehefin, 1946; llofnodwyd ar 22 Gorffennaf gan gynrychiolwyr 61 o Daleithiau (Cofnodion Swyddogol

Sefydliad Iechyd y Byd, rhif.2,t.100) a ddaeth i rym ar 7 Ebrill 1948.

Sefydliad Iechyd y Byd (1999) *Health 21: The health for all policy framework for the WHO European Region*. Cyfres European Health for All Rhif 6. Copenhagen: Sefydliad Iechyd y Byd.

Sefydliad Iechyd y Byd (1999) *Health impact assessment: Main concepts and suggested approach*. Copenhagen: Sefydliad Iechyd y Byd.

Taylor L et al (2002). *Introducing Health Impact Assessment (Asesu'r Effaith ar Iechyd): Informing the decision-making process*. Yr Asiantaeth Datblygu Iechyd, Llundain.

Wanless (2003) *Yr Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru*. Adroddiad Tîm Prosiect yr Adran Iechyd.

Whitehead, M (1992) *The health divide in inequalities in health: The Black Report*. Harmondsworth, Penguin.

Y Comisiwn Ewropeaidd (1985), Cyfarwyddeb 85/337/EEC – Asesu'r Effaith Amgylcheddol.

Y Comisiwn Ewropeaidd (2001), Cyfarwyddeb 2001/42/EC – Asesu Effaith Strategol

Y Swyddfa Gymreig (1998) *Gwell Iechyd, Gwell Cymru*. Caerdydd: Y Swyddfa Gymreig